

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022

Amser: 10.00 y.b.

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.

RHAGLEN

Rhifau Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Diweddariad Corfforaethol**
Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
4. **Datgan Diddordeb**
Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
5. **Cofnodion** 4 - 7
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 12fed Hydref 2022 fel rhai cywir. (Copi yma)
6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**
7. **Taflen Gweithredu** 8 - 13
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
8. **Rheoli'r Trysorlys - Adroddiad Interim 2022/23**
Cyflwyno adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid.
9. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2023/24** 14 - 17
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi i ddilyn)
10. **Diweddariad o'r Gyllideb 2022/23** 18 - 25
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
11. **Gorchmynion Sefydlog Parthed Contractau** 26 - 43
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
12. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** 44 - 66
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
13. **Proffil Risg yr Awdurdod** 67 - 78
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
14. **Enwau Lleoedd Parc Cenedlaethol Eryri** 79 - 93
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. (Copi yma)

- 94 - 96**
15. **Adroddiad Gweithgor yr Aelodau**
Cyflwyno adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 7fed Medi 2022. (Copi yma)
16. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.
17. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth**
- | | | |
|-----|---|------------------|
| (1) | Cofnodion Cyfarfod Gweithrediaeth Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2022. (Copi yma) | 97 - 103 |
| (2) | Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 13eg Gorffennaf 2022. (Copi yma) | 104 - 109 |
18. **Cynhadledd Europarc 2022**
Derbyn cyflwyniad ar Gynhadledd Europarc 2022.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 12 HYDREF 2022**

Cynghorydd Annwen Hughes (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL :

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G. Jones, Mr. D. Edwards, Ms S. Owen, Ms. Nia Roberts, Mrs. A. Gaffey.

Yn bresennol

Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, Ms. Rachel Freitag - Archwilio Cymru.

Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr June Jones, Elfed Powell Roberts;
Mr. J. Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (1) Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Roedd y cyfarfod wedi'i ohirio ym mis Medi yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II ac roedd yn cael ei ailgynnull heddiw. Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Ms. Delyth Lloyd i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.
- (2) Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am ddigwyddiadau a fynychwyd yn ddiweddar gan y Cadeirydd a'r Aelodau:-
 - cyfarfu'r Cadeirydd â Llywydd Sioe Frenhinol Cymru ac roedd wedi cyflwyno gwobr 'Myfyriwr y Flwyddyn' ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru.
 - cyfarfod gyda Leslie Griffiths MS yn Yr Ysgwrn.
 - mynychodd y Prif Weithredwr a'r Is-Gadeirydd Seminar ym Mhortmeirion ar yr Ardoll Twristiaeth yn ddiweddar.
 - roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elfed Roberts, Mr. Tim Jones a'r Prif Weithredwr wedi mynychu Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU 2022 yn Exmoor yn ddiweddar.
 - Roedd Mr. Brian Angell a Mr. Tim Jones wedi cynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Ewroparc yn **Argelès-sur-Mer, Ffrainc**.
- (3) Yna hysbyswyd yr Aelodau ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol:-
 - Diwrnod Datblygu Aelodau yn Yr Ysgwrn ar Ddydd Gwener 14eg Hydref 2022.
 - Cyfarfodydd blynyddol Cynghorau Cymuned a Thref (ar-lein trwy Zoom) ar y 25^{ain} a'r 27^{ain} o Hydref 2022.

- Sesiwn Anwytho Aelodau Newydd gyda'r Tîm Rheoli ar gyfer Aelodau nad oedd wedi gallu mynychu'r cyfarfod cyntaf.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

- (1) Yn unol â Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, roedd y tri swyddog strategol bellach wedi'u penodi, un ym mhob Parc Cenedlaethol. Swyddog strategol Parc Cenedlaethol Eryri fydd yn gyfrifol am adfer natur a rheoli carbon.
- (2) Amlinellodd y Prif Weithredwr newid mewn cyfrifoldebau Gweinidogol dros Dirweddau yng Nghymru. Mae AHNE, Mynediad i Gefn Gwlad a dynodiad Parc Cenedlaethol newydd wedi'u trosglwyddo i Lesley Griffiths AS gyda'r cyfrifoldeb am Barciau Cenedlaethol yn aros gyda Julie James AS.
- (3) Roedd trefniadau ar y gweill i'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr gwrdd â'r Gweinidog i drafod effeithiau chwyddiant ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.
- (4) Roedd gwaith ar osod llinellau uwchben o dan y ddaear dros yr Afon Dwyrdd wedi dechrau a bydd yn cymryd hyd at 5 mlynedd i'w gwblhau.
- (5) Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod benodi Aelod i eistedd ar is-bwyllgor Cynllunio'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, ac yn unol â'r rheoliadau dylai'r Aelod naill ai fod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd yr Awdurdod neu'n Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd Edgar Wyn Owen gynrychioli'r Awdurdod ar yr Is-bwyllgor Cynllunio.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

Eitem Rhif 10 – Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Mr. Nick Selwyn, Archwilio Cymru, i ddarparu rhagor o wybodaeth a dadansoddiad ynghylch pam fod busnesau twristiaeth yn teimlo nad yw'r Awdurdod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng ei ddau bwrpas. Hefyd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai crynodeb o ganlyniad ymchwil Prifysgol Bangor i sbwriel yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau unwaith y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau.

7. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 25.09.19

Eitem Gweithredu 8 – Diweddariad ar y Gyllideb

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd swyddogion yn trefnu dyddiad i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod cyn gynted â phosibl.

Cyfarfod Awdurdod 09.12.20

Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu

Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i bwysleisio'r angen i fwrw ymlaen â'r cam hwn fel blaenoriaeth gyda Phennaeth y Gwasanaeth Wardeinio a Mynediad ar ôl iddo ddychwelyd o absenoldeb salwch.

Cyfarfod Awdurdod 09.02.22

Eitem Gweithredu 13 – Cadernid yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cyfarfod yn cael ei gynnull, a bydd yr Aelodau'n cael eu cefnogi gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Cyfarfod Awdurdod 27.04.22

Eitem Gweithredu 9 – Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd adroddiad i adolygu 'Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau' yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod a bydd staff yn cael yr hyfforddiant priodol.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

8. **Cyflwyniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru**
Derbyniwyd – Cyflwyniad gan Archwilio Cymru.

Adroddwyd – Croesawodd y Cadeirydd Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, a Ms. Rachel Freitag o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Cafodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint ar rôl yr Archwilydd Cyffredinol a gwaith Archwilio Cymru a rhoddwyd trosolwg iddynt o'r gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a ymgymerir ag o, ac amseriad adroddiadau allweddol a gyflwynir yn flynyddol.

Diolchodd y Swyddog Adran 151 i Archwilio Cymru am eu cymorth, yn enwedig gyda'r cyfyngiadau amser a brofwyd eleni, a mynegodd y Prif Weithredwr hefyd ei werthfawrogiad i Archwilio Cymru am eu gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i Mr. Nick Selwyn, Mr. Euros Lake, a Ms. Rachel Freitag o Archwilio Cymru am y cyflwyniad.

PENDERFYNWYD croesawu'r cyflwyniad, ac fe ddarperir copi i Aelodau, er gwybodaeth.

9. **Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft a'r trefniadau ar gyfer cyfnod yr arolygiad gan aelodau'r cyhoedd.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn fanwl a dywedodd y bydd angen cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio (a'i addasu) i'r Aelodau ar 30 Tachwedd 2022 i'w gymeradwyo.

Yn codi wedi hynny, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau ystyried a ddylid galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod, neu ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft 2021/22.**
- 2. dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar ran yr Awdurdod.**

10. **Adroddiad Blynyddol 2021-22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i argymhell mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2021-22 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31^{ain} Hydref 2022.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Blynyddol 2021-22 sy'n adrodd ar gynnydd Blwyddyn 1 o ran cyflawni amcanion Llesiant yr Awdurdod, fel y'i mabwysiadwyd yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26.

PENDERFYNWYD

1. nodi'r adroddiad.

2. mabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2021-22 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2022.

11. **Cyfarfodydd Hybrid yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu i gymeradwyo'n ffurfiol argymhelliad bod yr Awdurdod a'r Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn cael eu cynnull fel cyfarfodydd hybrid byw.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu'r adroddiad a'r cefndir. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau nodi y byddai'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid byw ar gyfer y sesiwn brawf gyntaf hon yn unig.

PENDERFYNWYD

1. bod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 30^{ain} Tachwedd 2022 yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid byw arbrofol.

2. os bydd y cyfarfod uchod yn llwyddiannus, symud ymlaen gyda'r system hybrid fyw ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 7 Rhagfyr a chyfarfod yr Awdurdod ar 8 Chwefror 2023.

12. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi derbyn adroddiad Aquaterra ac adroddiad Small World Consulting a fydd yn cael eu harchwilio, a bydd strategaeth yn cael ei llunio i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

13. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Cyflwynwyd – Diweddariadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau y mae Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Hysbyswyd yr aelodau am ddigwyddiad diweddar a gynhaliwyd ym Mhortmeirion lle lansiodd y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, yr ymgynghoriad ar Ardoll Twristiaeth i Gymru.

Roedd y Prif Weithredwr ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod wedi mynychu, ochr yn ochr â chynrychiolwyr y gymuned a'r diwydiant twristiaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynrychiolwyr yn y seminar wedi rhoi arweiniad, sef, petai'r ardoll dwristiaeth yn cael ei chefnogi, y byddai'n cael ei chymhwysu'n gyson ledled Cymru gyda chytundeb ar yr angen i ddangos yn glir fanteision ardoll.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIA DAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
8. Diweddariad o'r gyllideb	<ul style="list-style-type: none"> - adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebwr gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol. - adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd. - rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael. 	<p>Cyflwyno'r adroddiadau.</p> <p>I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad.</p>	<p>EJ</p> <p>NJ</p> <p>GIJ</p>	<p>Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig. Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021. Bydd adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn Ebrill 2022 ac mae penodiad wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu.</p> <p>Mae diweddariad manwl wedi'i ddsbarthu i Aelodau'r Is-grŵp Asedau gyda'r nod o alw cyfarfod pellach yn yr Hydref.</p> <p>DIWEDDARIAD: Bydd yr Is-grŵp Asedau yn cyfarfod ar 30.11.22</p> <p>Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p> <p>Rhodddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p>	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
7 Taflen Gweithredu	Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19 Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuentid Europarc	Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys.	AD	<p>DIWEDDARIAD: Penodiad wedi ei wneud a bydd y swyddog yn ei swydd yn fuan.</p> <p>DIWEDDARIAD: Dechreuodd y swyddog yn ei swydd ar 4ydd Ebrill 2022. Ers hyn mae'r swyddog wedi dechrau trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored ynglŷn â'r Cynllun Ceidwaid Ifanc ac wedi ymweld â PC Sir Benfro i ddysgu am eu gwaith.</p> <p>Ar ôl yr etholiad ac unwaith y bydd aelodau'r Awdurdod yn eu swyddi, bydd cyfarfod o'r 'grŵp tasg a gorffen Maniffesto Ieuentid' yn cael ei drefnu. Gellir cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mehefin os oes angen.</p> <p>DIWEDDARIAD: Mae'r Swyddog Pobl Ifanc wedi paratoi cyflwyniad ac enghraifft o 'faniffesto Ieuentid'. Cynhelir cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen cyn y Nadolig, os yn bosibl.</p>	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 13.10.2021

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
11. Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd	<p>PENDERFYNWYD</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. disgwyl cyngor pellach ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw. 2. disgwyl adroddiad gan y Panel ar y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo. 3. bod y Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu i fynd i'r afael â'r unrhyw faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, ac i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen. 	Cyflwyno adroddiad pellach maes o law.	JC	<p>Rhoddodd y Grŵp Llywio ystyriaeth i adroddiad gan Dr Dylan Foster-Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar 8 Mawrth. Bydd hyn yn sail i swyddogion baratoi arweiniad pellach ar ymdrin â lleoedd gyda mwy nag un enw lle. Yn seiliedig ar hyn, bydd nodyn canllaw cychwynnol yn cael ei baratoi gan swyddogion a'i gyflwyno i'w drafod i Weithgor mis Medi. Os yw'r Aelodau'n fodlon â hyn, caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Awdurdod.</p> <p>Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ffyrdd y gellir dathlu a hyrwyddo enwau lleoedd.</p> <p>DIWEDDARIAD: Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod heddiw. (16.11.22)</p>	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.02.2022

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
13. Cydnerthedd yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff	PENDERFYNWYD: Cadeirydd yr Awdurdod i alw cyfarfod o'r Aelodau i ystyried capasiti / rôl y Tîm Rheoli. Enwebwyd yr Aelodau a ganlyn:- Cynghorwyr Annwen Hughes, Alwyn Gruffydd, Elwyn Edwards; Mr Owain Wyn, Mr Tim Jones a Ms Sarah Hattle.	Cadeirydd i alw cyfarfod.	Cadeirydd	Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar 30 Mawrth 2022 gyda chyfarfod arall yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau Mai 2022. Yn anffodus, ni chynhaliwyd y cyfarfod oedd i'w drefnu ym mis Mai. Bydd cyfarfod pellach o'r grŵp yn cael ei drefnu cyn gynted ag y bydd Aelodau (newydd) wedi'u briffio. Diweddariad - Cadarnhaodd yr Awdurdod ym mis Mehefin 2022 y bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ynghyd â Mr. Tim Jones a Ms Sarah Hattle yn cynnal yr adolygiad a bydd cyfarfod yn cael ei alw ar ôl gwyliau'r haf. Dywedwyd mai proses dau gam fydd hwn, yn gyntaf byddai telerau ac amodau/capasiti y Cyfarwyddwyr yn cael eu hystyried ac wedi hynny y panel i ystyried a oes angen adolygu telerau ac amodau /capasiti'r Prif Weithredwr. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF: ceisir dyddiad ar gyfer y cyfarfod a bydd yr Aelodau'n cael eu cefnogi, yn y lle cyntaf, gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 27.04.2022

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu	<p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - yr Awdurdod i ystyried newid i Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod yn ofynnol yn benodol). - yr Awdurdod i adolygu Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chontractau gyda hyfforddiant priodol i staff fel y nodir yn yr adroddiad. 	Cyflwyno adroddiad pellach maes o law.	GIJ	<p>I'w symud ymlaen yn yr Hydref unwaith y bydd Awdurdod newydd wedi'i sefydlu ac aelodau newydd wedi ymglyfarwyddo â gwaith yr Awdurdod.</p> <p>DIWEDDARIAD: Adroddiad i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog ar Gontractau yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod heddiw. (16.11.22)</p>	NA
11. Adroddiad Blynyddol yr Ysgwrn	<p>PENDERFYNWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> - yn dilyn y newid i aelodaeth yr Awdurdod, i drefnu ymweliad â'r Ysgwrn ar ddyddiad i'w drefnu yn 2022. 	Trefnu cyfarfod i'r holl Aelodau yn y dyfodol.	NJ	<p>I'w symud ymlaen unwaith y bydd Awdurdod newydd wedi'i sefydlu ac aelodau newydd wedi'u briffio.</p> <p>Diweddariad – Cynhwyswyd ymweliad â'r Ysgwrn fel rhan o'r Diwrnod Datblygu Aelodau ar 14eg Hydref 2022.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p>	IA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 15.06.2022

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
10. Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	PENDERFYNWYD: - aros am grynodedb o ganlyniad ymchwil gan Brifysgol Bangor i sbwriel yn y Parc Cenedlaethol i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol.	Cyflwyno'r adroddiad yn ôl y gofyn.	AJ	Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ar 19 Hydref 2022. DIWEDDARIAD: Bydd adroddiad cryno yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2023 pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.	NA
22. Cyfarfodydd Cyrff eraill	PENDERFYNWYD: - estyn gwahoddiad i Gwmni Egnio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol pan fydd cynigion pendant ar gael.	Gwahodd Cwmni Egnio maes o law.	JC	Anfonwyd gwahoddiad ar 4 Medi 2022. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl pan fydd cynnydd.	NA

EITEM RHIF 9

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	16 Tachwedd 2022
TEITL	CYLLIDEB SYLFAENOL REFENIW 2023/24
AWDUR	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	I nodi Cyllideb Sylfaenol wedi ei amcan ar gyfer 2023/24

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion o gyllideb ddrafft 2023/24 gan ddangos amcan gost parhau gwasanaethau cyfredol, a cwrdd a chostau sydd wedi eu awdurdodi ar gyfer y dyfodol.

2 CRYNODEB CYLLIDEB

- 2.1 Mae'r tabl yn atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o symudiad yn y gyllideb sylfaenol o'r gyllideb sylfaenol yn 2022/23, i'r prisiau disgwylidig ar gyfer 2023/24. Mae crynodeb isod:

CRYNODEB O GYLLIDEB APCE 2023/24				(£)	(£)
Cyllideb Sylfaenol 2022/23					6,393,279
Newidiadau					
	Cynydd costau staff		345,524		
	Cynydd gwariant		126,220		
	Cynydd Incwm		- 20,000		
	Cyfanswm newidiadau				451,744
					6,845,023
	Darpariaeth ar gyfer chwyddiant cyffredinol				30,000
Cyllideb sylfaenol 2023/24					6,875,023
	Grant & Lefi 2023/24				-5,493,051
	Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn				- 572,474
	Diffyg				809,498
<i>Gweler atodiad 1 am fwy o fanylion</i>					

- 2.2 Rydym wedi cynnwys darpariaeth o 5% ar gyfer chwyddiant cyflogau 2023/24, fodd bynnag, mae hi'n anodd iawn ar hyn o bryd rhoi amcan o raddfa chwyddiant yn sgil yr hinsawdd economaidd.

Mae darpariaeth chwyddiant cyffredinol hefyd wedi gynyddi i £30,000 oherwydd y gogwydd chwyddiant presennol.

Bydd y gwarged yn y tymor byr yn cael ei gyllido o groneydd wrth gefn, gweler crynodeb isod.

- 2.3 **Grant Llywodraeth Cymru (amcan £5,493,051)** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bydd eu cyllideb ddraft ar gael ar 13eg Rhagfyr 2022 ac mi fydd y gyllideb derfynol a ffigyrau setliad terfynol ar gael 28ain Chwefror 2023. Ar amser ysgrifennu'r adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bydd dim cynydd yn ffigyrau setliad yn y blynyddoedd i ddod. Mi ydw i felly wedi gwneud amcan bydd ffigwr setliad 'fflat' ar gyfer 2023/24, sydd yn cynrychioli toriad eithaf sylweddol mewn termau real o ystyried pwysau chwyddiant presennol.
- 2.4 Tydi effaith gwariant ychwanegol sydd wedi ei gyllido yn llawn o grantiau ddim yn cael ei ystyried yma, ond mi fyd yn cael eu gynnwys yn adroddiad Chwefror i'r awdurdod.
- 2.5 **Cynydd mewn costau staffio (£604,991)** : Y prif newidiadau fydd:

- Darpariaeth chwyddiant 5% (£283,281)
- Effaith cytundeb tál 2022/23 (£321,71)

2.6 **Newid mewn gwariant (156,220)** : Mae'r ffigwr yn cynnwys:

Cynydd mewn costau ynni	£126,220
Darpariaeth chwyddiant cyffredinol	£30,000

2.7 **Cyfraniad net o gronfeydd wrth gefn (-£572,474)** : Mae'r cyfraniadau yma yn perthyn i wariant ar gynlluniau penodol lle mae'r gyllideb wedi ei glustnodi yn barod o gronfeydd hanesyddol, tanwariant yr awrdurdod, neu grantiau wedi eu derbyn o flaen llaw. Fel nodir uchod, bydd y ffigwr yma yn cael ei adolygu yn bellach ar gyfer Awdurdod Chwefror a bydd dim effaith ar gyllideb sylfaenol yr Awdurdod.

2.8 Mae paragraff 3.3 or Rheoliadau Cyllid yn nodi bod angen caniatad yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau cyllideb gwerth £10,000 neu fwy yn y gyllideb drafft. Does dim trosglwyddiadau o'r fath yma.

3. **CRONFEYDD WRTH GEFN**

3.1 Ymhellach i strategaeth gyllidol ddarbodus yr Awdurdod, mae'r cronfeydd canlynol ar gael er mwyn pontio y gorwariant tebygol yn 2022/23, a'r diffyg amcangyfrifol yn 2023/24.

Enw'r Gronfa	Balans
Cronfa Gyffredinol	719,740
Cronfa Risgiau Penodol	424,160
Cronfa Risgiau Masnachol	120,000
Cronfa Gwytnwch Staff	100,000
Cyfanswm	1,363,900

Dim ond unwaith gellir defnyddio'r cronfeydd, felly rhaid amnewid yr ymateb byr-dymor, un-tro yma gan adnabod arbedion cyllidol parhaol yn 2023/24.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 **Nodi cynnwys y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24.**

			Appendix 1
		(£)	(£)
1	Baseline budget 2022/23		6,393,279
2	Changes in staff costs		
	2022/23 pay agreement (£1925 on each salary pay point)	321,710	
	5% Salary provision	283,281	
			604,991
	Reverse 2022/23 salary provision	- 259,467	
			-259,467
3	Change in expenditure		
	Increase in utility costs	126,220	
			126,220
4	Changes in income		
	Cynnydd		
	Interest income	-20,000	
			-20,000
5	General inflation provision		30,000
7	Baseline budget 2023/24		6,875,023
8	National Park grant and Levy 2023/24		-5,493,051
9	Contributions from reserves		
	Cyfraniadau Net	- 572,474	
			- 572,474
10	Deficit		809,498

EITEM RHIF 10

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	16 Tachwedd 2022
TEITL	DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2022-23
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu Aelodau – <ul style="list-style-type: none">• o drosglwyddiadau sylweddol,• o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf,• ynghyd ag amcan o'r sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2022-23 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol, h.y. 1 Ebrill 2022 hyd y 31 Hydref 2022.
- 1.2 Mae llithriad a thanwariant o flynyddyn ariannol 2021-22 wedi eu ychwanegu i'r gyllideb.
- 1.3 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd ag amcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.
- 1.4 Mae peth o gynlluniau grant prosiectau 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (TCLIC) wedi eu cario trosodd i 2022/23 i'w cwblhau. Mae grant TCLIC pellach gwerth £2.5milliwn wedi ei gymeradwyo i'r Awdurdod dros dair mlynedd o 2022-2025 sy'n cynnwys ffi gweinyddu o 10%.

2. GYLLIDEB REFENIW DDIWYGIEDIG 2022-23

- 2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 9 Chwefror 2022.

Gwelir ddyraniadau o gronfeydd yn y colofnau 'Trosglwyddiadau' yn y tabl isod :-

Gwasanaethau	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Cynllunio a rheoli tir	1,595,967	123,719	1,719,686
Corfforaethol	4,738,275	121,170	4,859,445
Balansau	259,467	- 61,740	197,727
Cyfanswm	6,593,709	183,149	6,776,858
Interest Earned on Surplus Funds	- 8,000		- 8,000
Revenue Financing of Capital Expenditure	398,620		398,620
Capital Charges Adjustment	- 591,050		- 591,050
Cyllideb net	6,393,279	183,149	6,576,428
Cyllido o			
Grant Parciau Cenedlaethol	4,119,789		4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262		1,373,262
	5,493,051		5,493,051
Tros o'r cronfeydd wrth gefn	900,228	183,149	1,083,377
Cyllideb Net ddiwygiedig	6,393,279		6,576,428

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig, yn ôl pob gwasanaeth ar 31 Hydref 2022, i'w weld yn Atodiad 1.

2.3 Mae'r cynnydd net o £183,149 yn y golofn "trosglwyddiadau newydd" yn cynrhychioli'r gweddill llithriad o gyllideb 2021/22 wedi ei ychwanegu i gyllideb sylfaenol 2022/23, yn ogystal a throsglwyddo darpariaeth ar gyfer cynydd 1.75% gytunwyd mis Mawrth 2022 i'r llinellau gwasanaeth perthnasol.

3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2022/23 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2:

Cyllideb Cyfalaf 2022/23						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosgl. Cynt (£)	Trosgl. Newydd (£)	Cyllideb Net Ddiwygiedig (£)
Cynllunio a Rheoli Tir	352,280	-	352,280	-	189,000	541,280
Corfforaethol	46,340	0	46,340	0	663,511	709,851
Cyfanswm	398,620	0	398,620	0	852,511	1,251,131

3.2 Mae'r cynnydd yn y golofn trosglwyddiadau newydd yn cynrhychioli'r elfen cyfalaf o'r grantiau T.C.LI.C ar gyfer 2022/23 a nodwyd eisoes.

4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2022/23

- 4.1 Mae'r Tîm Rheoli yn anelu i gadw gwariant net eleni o fewn yr adnoddau ar gael, gyda'r dewis o gyfraniad o gronfeydd wrth gefn yn ôl yr angen. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd 31 Hydref 2022 yn erbyn y gyllideb, a thafluniad o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (fel y trafodwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Cyfarwyddwyr). Pwysleisir fel y gall y rhagamcan hwn o'r ffigyrau newid erbyn diwedd y flwyddyn.

Maesydd Gwasanaeth	Cyllideb Net Dd'gedid (£)	Gwariant hyd yma (£)	Tafluniad diwedd blwyddyn (£)	Gwahaniaeth a regwelir (£)
Cynllunio a rheoli tir	1,595,967	813,483	1,681,970	- 86,003
Corfforaethol	5,013,915	1,359,112	5,221,515	- 207,600
Balansaru, Wrth Gefn a Darpariaethau	197,727	-	-	197,727
Cyfanswm Gwariant Gwasanaethau	6,807,609	2,172,595	6,903,485	- 95,876
Llog a Ennillwyd ar Gronfeydd Dros Ben	- 8,000	- 11,989	- 20,500	12,500
Cyfraniad referniw ar wariant cyfalaf	398,620		398,620	-
Addasiad Taliadau cyfalaf	- 591,050	- 482,832	- 827,700	
Cyllideb Refeniw Net	6,607,179	1,677,774	6,453,905	- 83,376
Rhagolwg Balans Net (+)/ diffyg (-)				- 83,376
Wedi Ariannu o				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			
Lefi Awdurodod Cyfansoddol	1,373,262			
Cyfraniad o Gronfeydd Wrth Gefn	900,228			
Cyllideb Net Wreiddiol	6,393,279			
Cyfr. O gronfeydd wrth gefn	213,900			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	6,607,179			

- 4.2 I grynhoi, y rhagolwg at ddiwedd y flwyddyn ar yr adeg hwn ydy diffyg o £83,276.

Y prif resymau am y diffyg yw'r Cytundeb Tâl Llywodraeth Leol diweddar sef cynydd o £1925 ar bob pwynt cyflog, a gytunwyd 1af Tachwedd 2022 (ac felly ddim yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau gwariant ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn cynrychioli cynydd ar gyflogau o oddeutu 6.5%, ac mi oedd darpariaeth o 4% eisioes wedi ei ddarparu

Cyflwynir isod esboniadau am y prif amrywiannau a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn, ac addasiadau o ganlyniad i hynny, gan ganolbwyntio'n bennaf ar symiau o £10,000 a throsodd.

- 4.3 **Corfforaethol:** Rhagwelir ddiffyg o oddeutu £207,600 sydd yn cynnwys effaith cynydd cyflogau. Mae'r prif amrywiadau fel a ganlyn :

Plas Tan y Bwlch – amcan o oddeutu £20,000 gor-wariant. Rhagwelir cyrraedd y targed incwm o wely a brecwast, cyrsiau a gosod ystafelloedd

cyfarfod, ond mae gorwariant tebygol ar wasanaethau a chyflenwadau oherwydd pwysau chwyddiant cyfredol.

Cyfieithu – rhagwelir tan-wariant o oddeutu £10,000 yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol yn hytrach na chyflogi cyfieithydd.

Cyfreithiol – mae achos Hillside, Aberdyfi wedi bod yn llwyddianus yn y goruchel lys, ac felly nid oes dim goblygiadau ariannol pellach ar yr Awdurdod. Mi fydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio ad-ennill rhywfaint o'r costau cyfreithiol.

Rheolaeth Corfforaethol – amcan o oddeutu £30,000 o dan-wariant gan bod swydd wag cynorthwy-ydd.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir:** Ar y cyfan, mae'r amrywiaethau cyllideb a ragwelwyd yn dod i falans diffyg o £86,000 yn erbyn y gyllideb sydd yn cynnwys cynydd cyflogau yn bennaf yn ogystal ac amrwyiannau bychain eraill yn erbyn y gyllideb.

4.5 **Llog:** Mae'r cyfraddau llog wedi cynyddi rhywfaint yn ddiweddar ar felly disgwylir ragori ar y targed o oddeutu £12,000.

4.6 **Cyfalaf:** Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Hydref yn cynnwys:

Cadair Idris (Grant Llywodraeth Cymru)	£71,796
Uwchraddio Toiledau	£20,792
Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau	£133,987

5. Trosglwyddiadau Rhwng Cyllidebau Dros £30,000 Er Sylw'r Awdurdod.

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

Nid oes achosion o'r fath yn saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

6. ARGYMHELLIAD

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau'r trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn ym mharagraff 1.2 a'r golofn 'Trosglwyddiadau Newydd' yn y tabl o dan paragraff 2.1**

7. PAPURAU CEFNDIROL
Dim

				Atodiad 1
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Hydref 2022				
	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl. newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedi g £
CYNLLUNIO ARHEOLI TIR				
Coedwigwyr (T.C.LI.C.)			0	
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	407,680		23,790	431,470
Awyr Dywyll			0	0
Mawndir Cymru (grant LI. Cymru)			0	0
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)	110,000		0	110,000
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	93,677		3,650	97,327
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	32,200		-4,300	27,900
Archeoleg	62,710		16,836	79,546
Treftadaeth Diwylliannol	73,560		7,950	81,510
Treftadaeth Treflun Dolgellau	22,930		630	23,560
Cynllun Harlech ac Ardudwy	51,560		710	52,270
Ysgwrn	90,280		5,560	95,840
Cynllunio	651,370		68,893	720,263
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	1,595,967	0	123,719	1,719,686
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510		0	112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	87,710		830	88,540
Rheolaeth Gorfforaethol	607,280		700	607,980
Eiddo	238,731		1,880	240,611
Cyfreithiol	54,510		780	55,290
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	207,010		620	207,630
Cyfieithu	103,740		840	104,580
Personel a Hyfforddiant	110,200		1,320	111,520
Pencadlys	221,310		70	221,380
Systemau Gwybodaeth	342,280		2,940	345,220
Cyllid	209,780		3,060	212,840
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	382,230		-14,100	368,130
Ymgysylltu	464,890		56,840	521,730
Safle Gwe Newydd	46,880		860	47,740
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,189,061	0	56,640	3,245,701

				Atodiad 1 (parhâd)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Hydref 2022				
	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl. newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	1,595,967	0	123,719	1,719,686
CORFFORAETHOL	3,189,061	0	56,640	3,245,701
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant L.I.C.)	21,520		400	21,920
Llwybrau Llesiant (grant L.I.C.)	40,000		0	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	258,020		49,900	307,920
Canolfannau Gwybodaeth	120,140		10,770	130,910
Llyn Tegid	-28,280		0	-28,280
Meysydd Parcio	-460,510		-130	-460,640
Clirio Ysbwriel	19,510		0	19,510
Traffig a Chludiant	5,000		0	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720		0	292,720
Mynediad Cyhoeddus	160,410		430	160,840
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr	1,120,684		3,160	1,123,844
	4,738,275	0	121,170	4,859,445
BALANSAU				
Darpariaeth Chwyddiant cyffredin	15,000			15,000
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	244,467		-61,740	182,727
	259,467	0	-61,740	197,727
CYFANSWM				
	6,593,709	0	183,149	6,776,858
Llog a Enillwyd	-8,000			-8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	398,620			398,620
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	0		-591,050
	6,393,279	0	183,149	6,576,428
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Tros o'r cronfeydd wrth gefn	900,228		183,149	1,083,377
Cyllideb Net	6,393,279			6,576,428

						Atodiad 2
Cyllideb Cyfalaf 2022/23						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl.	Trosogl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir						
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	149,490	0	149,490	0	0	149,490
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	98,073	0	98,073	0	0	98,073
Cynllun Harlech ac Arduwy	24,014	0	24,014	0	0	24,014
Carneddau - Data LiDAR (grant LI. C.)	15,630	0	15,630	0	0	15,630
Carneddau - Llwybrau (grant LI.C.)	65,073	0	65,073	0	0	65,073
Natur Eryri (T.C.LI.C)	0	0	0	0	189,000	189,000
Is-gyfanswm	352,280	0	352,280	0	189,000	541,280
Corfforaethol						
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340	0	22,340	0	0	22,340
Tech. Gwybodaeth at ddefnydd Cynllunio (grant LI. C.)	0	0	0	0	50,000	50,000
Prosiectau Mynediad	10,000	0	10,000	0	0	10,000
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	0	14,000	0	41,719	55,719
Morfa Dyffryn (T.C.LI.C.)	0	0	0	0	20,792	20,792
Cronfa Gymunedol Eryri (T.C.LL.C)	0	0	0	0	20,000	20,000
Eryri Cymunedol (T.C.LL.C)	0	0	0	0	112,500	112,500
Eryri - Carbon a Ni (T.C.LL.C)	0	0	0	0	184,500	184,500
Twristiaeth Gynaliadaw (T.C.LL.C)	0	0	0	0	234,000	234,000
Is-gyfanswm	46,340	0	46,340	0	663,511	709,851
Cyfanswm	398,620	0	398,620	0	852,511	1,251,131

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	16 Tachwedd 2022
TEITL	GORCHMYNION SEFYDLOG PARTHED CONTRACTAU
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	I fabwysiadu fersiwn diwygiedig o Orchmynion Sefydlog Parthed Contractau yr Awdurdod

1 Cefndir

- 1.1 Fel y bydd yr Aelodau yn siŵr o gofio mi sefydlwyd Grwp Tasg a Gorffen i ystyried Llywodraethu yn gyffredinol. Un o'r materion a drafodwyd oedd y gyfundrefn parthed ein Gorchmynion Sefydlog parthed Contractau.
- 1.2 Roedd cydnabyddiaeth bod angen diwygio'r gyfundrefn yn sgil y newidiadau mawr sydd wedi digwydd wrth adael yr Undeb Ewropeaidd a'r ffaith bod y rheolau pwrcasu bellach wedi newid yn sgil hyn. Teimlai'r Grwp Tasg a Gorffen hefyd bod angen pecyn hyfforddiant ar gyfer swyddogion yr Awdurdod, yn enwedig o ystyried bod nifer o swyddogion yn eithaf newydd i'r swydd.
- 1.3 Penderfynwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 27 Ebrill bod y Gorchmynion Sefydlog yn ymwneud â chontractau yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod maes o law.
- 1.4 Yn dilyn mabwysiadu y Gorchmynion Sefydlog penderfynwyd hefyd bod angen datblygu canllawiau a sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol ohonynt gan gynnwys defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol wrth hysbysu cyfleon.
- 1.5 Ers y penderfyniadau hyn rydym wedi bod yn gweithio gyda arbenigwyr o Geldards er mwyn sicrhau bod y Gorchmynion Sefydlog parthed Contractau diwygiedig yn cyd-fynd gyda'r newidiadau sydd wedi digwydd ar draws Gwledydd Prydain yn ogystal â'r newidiadau sydd yn berthnasol i Gymru yn unig.

2 Y Gorchmynion Sefydlog Parthed Contractau

- 2.1 Rwyf wedi atodi fersiwn drafft o'r Gorchmynion Sefydlog Parthed Contractau gyda'r adroddiad hwn.

- 2.2 Mae dipyn o newidiadau yn y Gorchmynion Sefydlog diwygiedig o'i gymharu â'r rhai presennol gan gynnwys ehangu'r diffiniad o'r hyn sydd yn cynnig y gwerth mwyaf economaidd i'r Awdurdod.
- 2.3 Rydym hefyd wedi cynnwys Egwyddorion Cyffredinol sydd yn esbonio ychydig o'r meddylfryd a'r rhesymau pam yr ydym yn mynd drwy'r broses, sef i sicrhau tegwch i bawb a'n bod yn dryloyw ar sut rydym yn gosod contractau yn ogystal â'n sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau i'r Awdurdod.
- 2.4 I unrhyw gontract sydd o dan y trothwy cenedlaethol (y mwyafrif llethol o'n contractau) mae tair haen sef:
- 2.4.1 Contractau o dan £5,000 lle mae gofyn am brisiau ar ddisgresiwn y Cyfarwyddwr.
- 2.4.2 Lle mae'r contract disgwylidig rhwng £5,000 a £25,000 mae'n ofynnol gofyn am dri dyfynbris.
- 2.4.3 Ar gyfer contractau dros £25,000 rhaid defnyddio Sell2Wales oni bai bod rhestr o gontractwyr wedi ei baratoi ar gyfer gwaith o'r fath yn unol â Rheol Sefydlog 6.
- 2.5 Mae'r Gorchmynion Sefydlog nawr yn ffurfioli ein bod yn gallu derbyn tendrau yn electroneg. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn y maes hwn ers i ni ddiwygio'r Gorchmynion Sefydlog ddiwethaf.
- 2.6 Rydym hefyd wedi diweddarau'r eithriadau i'r Gorchmynion Sefydlog er mwyn, gobeithio, ei gwneud yn glir lle mae rhesymau dilys pam na ellir dilyn y Gorchmynion Sefydlog bod eithriad yn bosibl yn yr amgylchiadau a restrir.
- 2.7 Rwyf wedi trafod y Gorchmynion Sefydlog hyn gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ogystal â'r Tîm Rheoli.
- 2.8 Os yw'r Awdurdod yn hapus i fabwysiadu'r Gorchmynion Sefydlog parthed Contractau bwriedir wedyn trefnu hyfforddiant ar y Gorchmynion Sefydlog diwygiedig gyda'r swyddogion perthnasol sydd yn delio gyda'r math hwn o waith o ddydd i ddydd.

GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

ARGYMHELLIAD

Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Gorchmynion Sefydlog Parthed Contractau sydd wedi ei amgáu fel Atodlen 1 gyda'r adroddiad hwn.

PAPURAU CEFNDIROL



RHEOLAU SEFYDLOG

sy'n ymwneud â

CHONTRACTAU

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972
— ADRAN 135**

**Mabwysiadwyd Mehefin 2013 ac fe'u diwygiwyd ar
[DYDDIAD] 2022**

CYNNWYS

Rheol Sefydlog Rhif.		Rhif y Dudalen.
1 .	Cymhwyso a Dehongli Rheolau Sefydlog	3
2 .	Egwyddorion Cyffredinol Cymhwysol i Weithgaredd Caffael	4
3.	Contractau heb fod yn fwy na £25,000	5
4.	Contractau dros £25,000	5
5.	Tendro Dethol - Rhestr Ad Hoc ar gyfer Contractau Islaw'r Trothwy	6
6.	Tendro Dethol - Rhestr Sefydlog ar gyfer Contractau Islaw'r Trothwy	7
7.	Gwahoddiadau i Dendro	8
8.	Tendro Agored	8
9.	Cyflwyno Tendrau	9
10.	Agor a Derbyn Tendrau	9
11.	Egluro Tendrau	10
12.	Ffurf a Chynnwys Contractau	11
13.	Indemniad ac Yswiriant	12
14.	Dewis Contractwr	12
15.	Gwrthdaro Buddiannau	13
16.	Eithriadau i'r Rheolau Sefydlog hyn	13
17.	Addasu Contractau ar ôl Dyfarnu	15
18.	Datgelu Contractau Partion Cysylltiedig	16

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 1 **Cymhwyso a Dehongli Rheolau Sefydlog**

Cymhwyso

- (1) Amcan y Rheolau Sefydlog hyn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn ymrwymo i gcontractau ar gyfer prynu a/neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ar y telerau Mwyaf Manteisiol yn Economaidd drwy gymhwyso arferion a gweithdrefnau moesegol, cyson a thryloyw. Bydd ymrwymo i'r contractau hynny bob amser yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog hyn a'r Rheoliadau Ariannol.
- (2) Rhaid cadw at y Rheolau Sefydlog hyn bob tro y bydd yr Awdurdod yn ymrwymo i gcontract ar gyfer prynu a/neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith.
- (3) Rhaid cadw at Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 a phob deddfiad perthnasol arall.

Dehongliad

- (4) At ddibenion y Rheolau Sefydlog hyn:

ystyr “Swyddog Awdurdodedig” yw swyddog o'r Awdurdod sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i ymrwymo i gcontractau ar ran yr Awdurdod hyd at werth a ganiateir yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod;

bydd y term “contract” yn berthnasol i bob cytundeb gan neu gyda'r Awdurdod ac un parti neu fwy ar gyfer prynu neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ond bydd yn eithrio contractau cyflogaeth neu gcontractau ar gyfer gwerthu a phrynu neu brydlesu unrhyw fuddiant mewn tir;

ystyr “Prif Swyddog Ariannol” yw'r swyddog a benodwyd gan yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;

Mae “Mwyaf Manteisiol yn Economaidd” yn golygu'r tendr neu'r cynnig hwnnw sydd, wrth gymryd i ystyriaeth y meini prawf a nodir gan yr Awdurdod, a all gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bris, ansawdd, darpariaeth, teilyngdod technegol, cydnawsedd, ymarferoldeb, gwerth cymdeithasol, nodweddion amgylcheddol ac effeithiolrwydd cyffredinol costau, fydd yn dod â'r budd mwyaf i'r Awdurdod;

Mae “Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus” yn golygu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, neu unrhyw ddeddfwriaeth newydd sydd mewn grym o bryd i'w gilydd mewn perthynas â chaffael a dyfarnu contractau cyhoeddus, contractau consesiwn, contractau gwasanaeth, contractau cyflenwi a chontractau gwaith;

ystyr “Dyfnbris” yw cynnig ysgrifenedig a wneir gan gyflenwr mewn ymateb i gais a dderbyniwyd gan swyddog priodol yr Awdurdod mewn perthynas â chyflenwi a/neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith;

ystyr “tendr” yw bid i gyflenwi nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i wneud gwaith;

ystyr “trothwy” yw’r trothwy perthnasol ar gyfer gwerth amcangyfrifedig contract (gan gynnwys TAW) sy’n gymwys o bryd i’w gilydd at ddiben penderfynu a oes rhaid dyfarnu’r contract yn unol â’r Ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus; a

“gwerth” contract fydd cyfanswm y gwerth dros gyfnod cyfan y contract, a hwn fydd y gwerth heb gynnwys TAW, ac eithrio lle mae’r Rheolau Sefydlog hyn yn nodi bod y gwerth yn cynnwys TAW.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 2.
Egwyddorion Cyffredinol Cymhwysol i Weithgaredd Caffael

- (1) Bydd pob contract a wneir gan yr Awdurdod neu gan Bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod yn cael ei ddyfarnu yn unol â’r Rheolau Sefydlog hyn oni bai bod eithriad wedi’i roi yn unol â pharagraff (5) o’r Gorchymyn hwn.
- (2) Rhaid i Swyddogion Awdurdodedig sicrhau eu bod yn trin pob darpar contractwyr yn gyfartal a heb wahaniaethu a bod ymarferion caffael yn cael eu cynnal mewn modd tryloyw a chymesur.
Er mai corff annibynnol ydym ni, byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol. Edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn y digwyddiadau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i rannu gwybodaeth, profiad, ac arfer gorau ar draws ystod o bynciau sy'n ymwneud â rôl cynghorydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y gallwn weithredu ar y cyd i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth leol.

Cyn hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwaith ymchwil fydd yn edrych ar y rhwystrau i sefyll ar gyfer swyddi etholedig a rôl newidiol y cynghorydd, ac mae'n datblygu rhaglen waith ynghylch rôl y cynghorau cymuned a thref.

Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd eleni'n flwyddyn o atgyfnerthu. Cafodd newidiadau mawr eu rhoi ar waith y llynedd, a chytunwyd ar godiad sylweddol yn lefelau cyflog. Hoffem ganiatáu amser i Benderfyniadau'r llynedd ymwreiddio ac i ganiatáu i'r Panel barhau i ddatblygu sylfaen ymchwil a thystiolaeth i lywio penderfyniadau'r dyfodol a symud i gylch cynllunio mwy hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn ystyried strwythur ein hadroddiadau a sut y gallwn eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Daethom i'r casgliad bod llawer o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn efelychu blynyddoedd blaenorol, yn aml heb newid sylweddol. Ar gyfer yr adroddiad hwn penderfynom ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r cynigion. Rydym felly wedi penderfynu y bydd mwyafrif y cynnwys a nodir mewn adroddiadau blaenorol yn cael ei ddileu o'r adroddiad a'i osod ar wefan y Panel. Byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd ar y wefan.

Mae'r newid hwn wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol a'i wneud yn fwy hylaw i lywio drwyddo. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a byddai gennym ddiddordeb yn eich barn am y dull hwn ac felly rydym wedi gofyn yn benodol am rywfaint o adborth fel rhan o'n [cwestiynau Ymgynghori](#) ar ddiwedd yr Adroddiad.

Aelodau'r Panel

Frances Duffy, Cadeirydd

Saz Willey, Is-gadeirydd

Ruth Glazzard

Bev Smith

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau ar y wefan: [Gwefan Panel](#)

Adran 2: Rôl a chyfrifoldebau'r Panel

Rôl y Panel

Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol.

- Prif Gyngorau – cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol
- Cyngorau Cymuned a Thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am y canlynol:

- Y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- Y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- P'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- Trefniadau o ran absenoldeb teuluol
- Trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Mae'r Panel hefyd yn ymgynghorai ar gyfer newidiadau arfaethedig i dâl Prif Weithredwyr prif gyngorau.

Egwyddorion

Yn sail i waith y Panel mae set o egwyddorion sy'n llywio ei ddull gweithredu, ei fethodoleg a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, sef:

- **Cynnal ymddiriedaeth a hyder** – Mae dinasyddion yn iawn i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal yr ymddiriedaeth gyhoeddus drwy gofleidio'r gwerthoedd a'r foeseq ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath.
- **Symrwydd** – Mae'r Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy.
- **Tâl Cydnabyddiaeth** – Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliad i aelodau awdurdodau sy'n gyfrifol am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y taliad fod yn rhwystr i ymgymryd â'r swydd neu barhau yn y swydd.
- **Amrywiaeth** – Mae democratiaeth yn cael ei chryfhau pan fydd aelodau'r awdurdodau yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau y mae awdurdodau o'r fath yn eu gwasanaethu.
- **Atebolrwydd** - Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i dderbyn gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i ymrwymo i fod yn dâl i'r bobl sy'n cael eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol i wasanaethu er budd y cyhoedd.

- **Tegwch** - Bydd modd cymhwyso'r Fframwaith yn gyson i aelodau o bob awdurdod o fewn cylch gwaith y Panel fel modd o sicrhau bod lefelau tâl yn deg, yn fforddiadwy ac yn dderbyniol ar y cyfan.
- **Ansawdd** - Mae'r Panel yn cydnabod bod y cyfuniad cymhleth o lywodraethu, craffu a dyletswyddau rheoleiddio sy'n ddyletswydd ar aelodau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd rhan mewn proses o wella ansawdd yn barhaus.
- **Tryloywder** - Mae bod yn dryloyw ynghylch tâl aelodau er budd y cyhoedd.

Adran 3: Crynodeb o Drafodaethau a Phenderfyniadau

Methodoleg

Bob blwyddyn mae'r Panel yn ymgysylltu ag aelodau'r cyrff y mae'n pennu lefelau tâl ar eu cyfer, swyddogion o fewn y sefydliadau hynny, clercod, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'n gwneud hyn trwy ystod o gyfarfodydd sydd, ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Bydd y Panel yn parhau â'r trafodaethau hyn. Maent yn rhoi cyfle i'r Panel archwilio barn am y trefniadau presennol, yr effaith y mae penderfyniadau'n eu cael ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithredu'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Mae hefyd yn gyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y gallai fod angen i'r Panel eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Caiff yr adroddiad drafft ei gyhoeddi'n eang a chaiff aelodau'r cyhoedd eu hannog i ddarparu adborth gwerthfawr, ac maent wedi gwneud hyn ac rydym yn ei groesawu.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried adborth ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n ymddangos bod y newidiadau a wnaed yn Adroddiad y llynedd, yn enwedig y codiad yn y cyflog sylfaenol, wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid. Mae'r materion a godwyd gyda'r Panel i gyd yn canolbwyntio ar fanylion y Penderfyniadau, gan ofyn am arweiniad ar sut y dylid eu cymhwyso neu'n gofyn am eglurhad lle roedd testun yr Adroddiad yn aneglur.

Felly, mae'r Panel wedi cytuno i adolygu fformat a strwythur y prif Adroddiad ac i wneud gwell defnydd o wefan y Panel er mwyn darparu gwybodaeth a chanllawiau.

Mae gan y Panel ddyletswydd i osod taliadau sy'n deg ac sy'n annog a galluogi cyfranogiad democrataidd. Rhaid iddo hefyd ystyried fforddiadwyedd a derbynadwyedd.

Wrth wneud ei benderfyniadau ar gyfer yr Adroddiad Drafft hwn, ystyriodd y Panel ystod o feincnodau, gan gynnwys mynegeion blaenorol, cyfredol a rhagamcanol a ffigurau gwirioneddol a'r graddau a'r effaith hysbys ac a ragwelir o nifer o ffactorau economaidd a chymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys amgylcheddau gwaith ar ôl Brexit a COVID a chostau byw, ynni ac argyfyngau hinsawdd.

Ymgynghorwyd ar gynigion y Panel, ac ar ôl ystyried y safbwyntiau a gafwyd mewn ymateb i'w ymgynghoriad, mae'r Panel yn gwneud ei benderfyniadau terfynol a gyhoeddir bob blwyddyn yn ei Adroddiad Blynyddol.

Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2023 i 2024

Cyflog sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau - Penderfyniad 1

Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2023 i 2024.

Y llynedd, ailbennodd y Panel y cyflog sylfaenol i gyd-fynd ag [Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion \(ASHE\) 2020](#) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn lleihau'r anghydbwysedd oedd wedi codi rhwng cyflog sylfaenol aelodau o brif gynghorau a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Daeth y newid i rym o etholiadau lleol Mai 2022 ymlaen. Mae'r rhesymeg dros y cam arwyddocaol hwn i'w weld yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ac mae papur esboniadol manwl yn nodi'r cyd-destun hanesyddol a'r dadansoddiad ar gael ar wefan y Panel.

Gan adeiladu ar y penderfyniad hwn, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. **Bydd y cyflog sylfaenol yn cyd-fynd gyda thair rhan o bump o [ASHE Cymru gyfan 2021](#), y ffigur diweddaraf sydd ar gael wrth ddrafftio. Y cyflog fydd £17,600. Bydd hyn yn gynydd o 4.76% yn y cyflog sylfaenol.**

Cyflogau a delir i aelodau Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau: Penderfyniad 2

Bydd y cyfyngiad ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le. Yn etholiadau lleol 2022 fe wnaeth adolygiadau ffiniau newid nifer yr aelodau i rai cynghorau. Addasodd y Panel y cap cyflog uwch ar gyfer y cynghorau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023. Gan nad oes newidiadau pellach ar gyfer 2023 i 2024, mae'r uchafswm o gyflogau uwch sy'n daladwy o fewn pob cyngor yn parhau fel y nodir yn [Adroddiad](#) 2022 i 2023.

Mae'r holl gyflogau uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol rhwng pob rôl yn cael ei gydnabod mewn fframwaith bandiau. Cafodd y fframwaith ei ddiwygio'r llynedd ar ôl adolygiad o wahaniaethau a chymaryddion marchnad. Does dim newidiadau i fandiau yn cael eu cynnig eleni. Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan y prif gynghorau i archwilio a yw'r llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid a sut y mae wedi newid.

Mae'r cynnydd sy'n gysylltiedig ag [ASHE 2021](#) yn berthnasol i elfen rôl cyflogau Band 1 a Band 2 - arweinydd, dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol.

Er mwyn cwblhau gwaith y llynedd o ailalinio'r fframwaith, bydd y rheini sy'n derbyn cyflog Band 3 a Band 4 yn derbyn cynnydd bach i elfen rôl eu tâl a bydd elfen rôl taliad Band 5 yn parhau wedi'i rewi. Ni fydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys.

Felly, £66,000 fydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A). Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu wrth gyfeirio at hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

Tabl 1 – Cyflogau sy'n daladwy i Aelodau Sylfaenol, Uwch, Dinesig a Llywydd y Prif Gyngorau

Disgrifiad	Tâl Cydnabyddiaeth		
Aelodau Etholedig o Brif Gyngorau			
Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig)	£17,600		
Uwch-gyflogau (gan gynnwys y cyflog sylfaenol)	Grŵp A	Grŵp B	Grŵp C
Band 1:			
Arweinydd	£66,000	£59,400	£56,100
Dirprwy Arweinydd	£46,200	£41,580	£39,270
Band 2:			
Aelodau Gweithredol	£39,600	£35,640	£33,660
Band 3:			
Cadeiryddion Pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) Pennaeth Dinesig Aelod Llywyddol	£26,400		
Band 4:			
Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf	£26,400		
Band 5:			
Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Eraill Dirprwy Bennaeth Dinesig	£21,340		
Dirprwy Aelod Llywyddol – dim taliad rôl	£17,600		

Grŵp A: Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe

Grŵp B: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam

Grŵp C: Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- Teithio a chynhaliaeth;
- Gofal a Chynhorthwy Personol;
- Absenoldeb salwch;
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol;

- Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth;
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi;
- Aelodau Cyfetholedig

Cyflogau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu – Penderfyniad 3

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800

Bydd cyflog Is-Gadeirydd yn £4,400.

Ni cheir unrhyw newidiadau eraill.

Taliadau tuag at gostau a threuliau aelodau Cyngorau Cymuned a Thref; Penderfyniad 4

Y llynedd fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad mawr o'r fframwaith taliadau ar gyfer cyngorau cymuned a thref gan gynnal ymarfer ymgynghori cynhwysfawr gyda'r sector. Diweddarwyd y Fframwaith bryd hynny ac eleni mae'r Panel wedi penderfynu gwneud newidiadau cyfyngedig ond pwysig.

Mae'r Panel yn cydnabod bod pob aelod o gynghorau cymuned a thref o reidrwydd yn treulio amser yn gweithio o adref ar fusnes y cyngor. Roedd hyn yn wir cyn ac yn ystod COVID ac mae'n parhau. O ganlyniad, mae gan aelodau gostau domestig ychwanegol ac mae angen nwyddau traul swyddfa arnynt hefyd.

Mae'r Panel o'r farn na ddylai aelodau fod allan o boced am gyflawni eu dyletswyddau. Felly, mae'n cynnig y canlynol:

Taliad sylfaenol ar gyfer y costau ychwanegol o weithio gartref

Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref.

Taliad penodol am nwyddau traul

Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'n fater i bob cyngor wneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y gwneir y taliadau a ph'un a ydynt yn cael eu talu'n fisol, bob blwyddyn neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd ddatgan a ddylid adennill unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol, a sut i adennill.

Mae lefel y taliadau wedi'u nodi yn Nhabl 2.

Tabl 2 - Taliadau i Gyngorau Cymuned a Thref

Math o daliad	Gofyniad
Grŵp 1	Etholaeth dros 14,000
Taliad Costau Ychwanegol	Gorfodol ar gyfer pob Aelod
Uwch Rôl	Gorfodol ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 7
Maer neu Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £500
Lwfans Presenoldeb	Dewisol
Colled Ariannol	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	Dewisol
Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol	Gorfodol

Math o daliad	Gofyniad
Grŵp 2	Etholaeth 10,000 i 13,999
Taliad Costau Ychwanegol	Gorfodol ar gyfer pob aelod
Uwch Rôl	Gorfodol ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 5
Maer neu Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £500
Lwfans Presenoldeb	Dewisol
Colled Ariannol	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	Dewisol
Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol	Gorfodol
Grŵp 3	Etholaeth 5,000 i 9,999
Taliad Costau Ychwanegol	Gorfodol ar gyfer pob aelod
Uwch Rôl	Dewisol hyd at 3 aelod
Maer neu Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £500
Lwfans Presenoldeb	Dewisol
Colled Ariannol	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	Dewisol
Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol	Gorfodol
Grŵp 4	Etholaeth 1,000 i 4,999
Taliad Costau Ychwanegol	Gorfodol ar gyfer pob aelod
Uwch Rôl	Dewisol hyd at 3 aelod
Maer neu Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £500
Lwfans Presenoldeb	Dewisol
Colled Ariannol	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	Dewisol
Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol	Gorfodol
Grŵp 5	Etholaeth llai na 1,000
Taliad Costau Ychwanegol	Gorfodol ar gyfer pob aelod
Uwch Rôl	Dewisol hyd at 3 aelod
Maer neu Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500
Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd	Dewisol - Hyd at uchafswm o £500
Lwfans Presenoldeb	Dewisol
Colled Ariannol	Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth	Dewisol
Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol	Gorfodol

Rhif y Grŵp	Maint yr Etholaeth
Grŵp 1	Etholaeth dros 14,000
Grŵp 2	10,000 i 13,999
Grŵp 3	5,000 i 9,999
Grŵp 4	1,000 i 4,999
Grŵp 5	O dan 1,000

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol, a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys:

- Taliadau am gyflawni uwch rolau;
- Cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol;
- Ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth;
- lawndal am golled ariannol;
- Lwfans presenoldeb;
- Aelodau Cyfetholedig

Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 5

Cafodd y tri parc cenedlaethol yng Nghymru - Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri eu ffurfio i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer pob parc.

Mae awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau yn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau sydd wedi'u henwebu gan y Cyngor eu trin yn gyfartal mewn perthynas â thaliadau.

Ffurfiwyd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y Prif Gynghorau o fewn pob ardal gwasanaeth tân ac achub.

Bydd y taliadau'n cynyddu o ganlyniad i'r codiad sy'n cael ei gynnig ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau. Felly, bydd codiad o 4.76% hefyd yn yr elfen cyflog sylfaenol.

Bydd y tâl i Gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig ag uwch-gyflog Band 3 prif gynghorau. Felly ceir cynnydd bach yn elfen rôl eu taliad. Bydd Dirprwy Gyfarwyddwyr, Cadeiryddion Pwyllgorau a phobl mewn uwch-swyddi eraill yn parhau ar Fand 5. Felly, bydd elfen rôl eu taliad yn parhau wedi'i rewi. Bydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys. Mae manylion llawn am lefelau tâl i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, wedi'u nodi yn Nhabl 3.

Tabl 3 – Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	
Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin	£4,964
Cadeirydd	£13,764
Dirprwy Gadeirydd (os penodir un)	£8,704
Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall	£8,704
Awdurdodau Tân ac Achub	
Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin	£2,482
Cadeirydd	£11,282
Dirprwy Gadeirydd (os penodir un)	£6,222
Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall	£6,222

Bydd pob Penderfyniad arall ar gyfer 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol a dylid ei gymhwyso yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rheini sy'n cwmpasu:

- Cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol;
- Ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth;
- Iawndal am golled ariannol;
- Aelodau Cyfetholedig
- Cyfyngiadau ar dderbyn ad-daliadau dwbl pan fo aelod yn dal mwy nag un swydd.

Adran 4: Ymgynghori ar Ddrafft – Cwestiynau

Rydym yn croesawu adborth ar yr Adroddiad drafft hwn, ac wedi cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol lle byddem yn gwerthfawrogi eich barn. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 1 Rhagfyr 2022 a gallwch naill ai anfon e-bost atom gyda'ch sylwadau neu lenwi ffurflen ar ein gwefan [YMA](#)

Cwestiwn 1

Mae'r Panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Mae cynnydd cymesur cyfatebol wedi'i gynnig i aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg ASHE diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2021. Ydych chi'n cytuno y dylai'r elfen cyflog sylfaenol fod yn gysylltiedig â data [ASHE 2021](#)?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 2

Mae'r Panel wedi gwneud newidiadau i sut y caiff costau a threuliau eu talu i aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r elfen "nwyddau traul"?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 3

Bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i edrych ar p'un a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, a sut y mae wedi newid, i lywio Penderfyniadau'n y dyfodol. Ydych chi'n fodlon y dylai'r Panel gynnwys yr adolygiad hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Dim barn	<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 4

Rydym wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol eleni er mwyn canolbwyntio ar benderfyniadau allweddol a wnaed, ac yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r wefan i roi arweiniad hawdd i ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Sut y byddech chi'n dymuno cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad gan y Panel?
(dewiswch bob un sy'n berthnasol)

Adroddiad cryno gyda dolenni at ganllawiau manwl	<input type="checkbox"/>
Canllawiau hawdd eu defnyddio	<input type="checkbox"/>
Cwestiynau Cyffredin	<input type="checkbox"/>
Gwefan	<input type="checkbox"/>
Y Cyfryngau Cymdeithasol	<input type="checkbox"/>
Digwyddiadau gwybodaeth	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

Os arall, rhowch fanylion:

Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gael gafael ar ein canllawiau a'n gwybodaeth neu wrth geisio eu deall drwy ein gwefan? Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud pethau'n haws i chi.

Cwestiwn 5

Mae'r panel yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac adeiladu ei dystiolaeth a'i strategaeth ymchwil.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a fyddai'n helpu'r Panel i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu hyn?

Er enghraifft, a ydych chi'n ffafrio polau ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut allwn ni ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac ati.

A hoffech gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol?

Hoffwn

Na hoffwn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Manylion cyswllt

Crynodeb o Benderfyniadau:

Penderfyniad 1:

Bydd lefel sylfaenol cyflog aelodau etholedig prif gynghorau yn cael ei osod ar £17,600.

Penderfyniad 2:

Bydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) yn £66,000. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu gan ystyried hyn.

Penderfyniad 3:

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800.

Bydd cyflog is-gadeirydd yn £4,400.

Penderfyniad 4:

Bydd aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sydd gyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at gostau ychwanegol (gan gynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. Rhaid i Gynghorau hefyd naill ai dalu £52 y flwyddyn am gost nwyddau traul y swyddfa sydd eu hangen er mwyn gwneud eu swydd, neu fel arall, rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gostau eu nwyddau traul swyddfa.

Penderfyniad 5:

Mae tâl sylfaenol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu 4.76%. Caiff yr holl daliadau eu nodi yn Nhabl 3.

Penderfyniad 6:

Mae'r holl Benderfyniadau eraill a nodir yn [Adroddiad Blynyddol](#) 2022 i 2023 y Panel yn parhau'n ddilys a dylid eu cymhwyso.

Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol
Ystafell N.03
Y Llawr Cyntaf
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0253038

E-bost irpmailbox@llyw.cymru

Mae'r Adroddiad a gwybodaeth arall am y Panel a'i waith ar gael ar ein gwefan yn:

[Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol](#)

EITEM RHIF 13

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	16 Tachwedd 2022
TEITL	PROFFIL RISG YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod ac i baratoi Crynodeb Blynyddol

CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.
- 1.2 Mae'n ofynnol bod y Proffil Risg yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu newidiadau i'r Proffil dros y 12 mis diwethaf ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw risgiau sydd angen eu tynnu oddi ar y Gofrestr yn barhaol.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb blynyddol yn ogystal â diweddariad mewn perthynas â'r Proffil Risg dywededig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 13eg o Orffennaf 2022.
- 1.4 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodedb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2022 (manylder yn Atodiad 1).
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae 18 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 6 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 12 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 1 wedi cael ei nodi yn risg Isel.
- 1.6 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae 1 risg newydd wedi ei adnabod a'i ychwanegu at y Gofrestr Risg, sef y risg o ymosodiad seibr. Mae'r holl fesurau lliniaru sydd ar gael wedi'u rhoi ar waith ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n barhaus. Mae'r risg ar hyn o bryd yn cael ei nodi fel Canolig.

1.7 Ni thynnwyd unrhyw risgiau oddi ar y Gofrestr Risg dros y 12 mis diwethaf.

1.8 Dyma grynodeb o'r risgiau:

Risg Uchel	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Dim
Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at ddyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Dim
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Dim
Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Cynyddu i Risg Uchel
Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Cynyddu i Risg Uchel

Risg Canolig	Newid
Risg i enw da par. rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Dim
Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018.	Dim
Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddfaol.	Dim
Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Dim
Gwynwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod.	Dim
Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Dim
Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
Sicrhau dyfodol tymor hir i Plas Tan y Bwlch.	Dim
Risg o ymosodiad Seibr	Dim

Risg Isel	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU


Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.



ARGYMHELLIAD



Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.



PAPURAU CEFNDIR




Cofrestr Risg: Diweddariad Tachwedd 2022.



COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI										Tachwedd 2022		
Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	4	4	16	<p>Yn dilyn cynnydd o 10% yn ariannu referniw craidd Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer APCE yn 2021/22, ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2022/23, er gwaethaf codiadau chwyddiant dilynol na welwyd ers yr 1980au.</p> <p>Roedd rhagamcanion gwreiddiol LIC yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2023/24 a 2024/25, er y gallai hynny newid yng nghyd-destun datblygiad chwyddiant a chyllid canlyniadol ar gyfer LIC. Mae arwyddion bod gan Lywodraeth Cymru flaenoriaethau amgylcheddol, a bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y gyllideb craidd.</p> <p>Hefyd, mae APCE wedi cadw ychydig o hyblygrwydd wrth osod cyllideb 2022/23, tra hefyd yn cynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn. Felly, er bod yr her ariannol a rhagwelwyd yn amlwg erbyn hyn, rydym yn dal yn hyderus y byddwn yn gallu cyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau'r Awdurdod eleni, ond mi fydd effaith niweidiol sylweddol yn 2023/24 heblaw bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Prif Swyddog Cyllid



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Risg Cynhenid	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg.	Canlyniad			
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Hydref 2020 cymerwyd y penderfyniad i weithredu Plas Tan y Bwlch fel busnes G&B yn y tymor byr i ganolog, ac i symud ymlaen i ailstrwythuro staff fel amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r penderfyniad yn golygu bod y risg i'r Awdurdod wedi ei leihau rhywfaint. Pryn bynnag, mae risg i'r Awdurdod o hyd, er bod yr effaith a'r effaith debygol wedi lleihau rhywfaint.</p> <p>Yn dilyn y broses o ail-agor yr economi, mae Plas wedi cael tymor prysur gydag archebion grŵp a chyrsgiau yn dychwelyd i'r Plas yn ogystal â gweithredu Gwely a Brecwast yn ystod y tymor brig. Rydym yn adrodd ar y sefyllfa yn rheolaidd i Fwrdd y Plas. Fel gyda gweddill y sector, rydym wedi dioddef o brinder staff mewn meysydd allweddol ond wedi gallu parhau i weithredu yn gyffredinol. Mae incwm y flwyddyn hyd yn hyn wedi ei gyfrifo ac yn destun eitem drafod yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas. Mae'r ffigurau'n ffafriol ar y cyfan, ac amcangyfrifir y bydd cynhyrchu incwm yn cyrraedd ei darged erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, gyda'r argyfwng costau byw a chwyddiant cynyddol, rydym yn ymwybodol y bu gorwariant costau staff yn arbennig, yn ogystal â chostau tanwydd ar gyfer rhedeg a gwresogi Plas. Yn ogystal, mae cadw'r gost ar brynu bwyd i lawr yn parhau i fod yn her. Ni fydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gynhyrchu incwm ac mae ganddynt y potensial i gael effaith fach ar gyfrifon yr Awdurdod.</p>	3	5	15		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Cyf. Gwas. Corfforaethol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Mae llif incwm wedi parhau yn gyson â blynyddoedd cyn Covid dros fisoedd yr haf felly rhagwelir cyflawni'r targed incwm yn llawn ar hyn o bryd, gyda gwarged posib i ariannu costau diogelwch y system rhag-archebu ym Mhen y Pass.	4	1	4		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Pennaeth Eiddo



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15	<p>Wrth ddenu at ddiwedd y tymor, mae'r Ysgwrn yn gweld yr un patrwm a nifer o safleoedd treftadaeth ledled Cymru sef bod niferoedd ymwelwyr yn amrywiol iawn. Erbyn hyn, rydym yn gweld patrwm ansefydlog, lle mae cyfnodau yn cyrraedd niferoedd 2019 a chyfnodau eraill ymhell dan yr arfer cyn Covid 19. Mae'r gynulleidfa grŵp yn enwedig wedi'i effeithio'n fawr gan Covid 19 a tydi'r niferoedd ymwelwyr o'r gynulleidfa hon heb eu hadfer eleni. Mae ymweliadau gan ysgolion yn argyhoeddi'n dda. Cafwyd llwyddiant gyda cheisiadau grant Haf o Hwyl a chynhaliwyd rhaglen lawn o weithgareddau a digwyddiadau safonol gydol yr Haf a'r Hydref gydag ymateb ffafriol gan deuluoedd lleol.</p> <p>Mae cyfres o adnoddau addysg newydd wedi'u cwblhau, sy'n ymateb i anghenion y Cwricwlwm i Gymru ac mae grant wedi'i dderbyn i gynhyrchu chwaneg cyn diwedd 2022/23. Caiff y swydd Swyddog Addysg a Gwirfoddoli ei hysbysebu yn fuan er mwyn ail-ymgysylltu a chynulleidfaoedd grŵp a gwirfoddolwyr.</p> <p>Mae cywaith Geiriau Diflanedig ar waith er mwyn dod a'r arddangosfa hynod hon i'r Ysgwrn yn 2023. Mae'r gwaith yn bartneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.</p>	3	4	12		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliaennol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12	<p>Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd o'r DU eto'r haf hwn, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Rhoddwyd nifer o fesurau lliniaru ar waith gyda phartneriaid ar gyfer tymor 2021 a byddant yn parhau ar gyfer tymor 2022.</p> <p>Mae argymhellion yr astudiaeth rheoli traffig ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen wedi cael eu hystyried gan bartneriaid a Llywodraeth Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn mabwysiadu dull rhanbarthol ar gyfer materion o'r fath, ac mae ar gyfer Cylch Gorchwyl Grŵp Trafnidiaeth Eryri wedi'i gytuno ac mae cyfarfodydd wedi cychwyn. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafndiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Mae'r Awdurdod am ddarparu tystiolaeth i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Prif Weithredwr / Rheolwr Partneriaethau



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	9	<p>Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â Archwilio Cymru ar gynllun peilot i ddatblygu ei effeithiolrwydd er mwyn gweithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.</p> <p>Cyflwynwyd yr adroddiad ar dwristiaeth gynaliadwy i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2022. Bydd astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 yn ystyried arallgyfeirio incwm, ac mae'r Awdurdod yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r archwiliad.</p>	3	3	9		C (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Prif Weithredwr
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalo, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12	<p>Amserlen: Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Ymarfer ail-broffilio'r cynlyn ar y gweill, i fonitro cynnydd cywir yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.</p> <p>Pwrpasau Cymeradwy: Cyfradd gwario a chyrraedd targedau'r cynllun wedi cynyddu gydag adferiad o'r pandemig Covid-19. Mae'r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi'i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Cynhaliwyd cyfarfod partneriaeth lwyddiannus iawn ym mis Mai 2022. Mae fframwaith gwerthuso'r cynllun wedi'i ddrafftio, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r gwerthuswr penodedig i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.</p> <p>Cyllid: Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn.</p> <p>Staff: Ers Mai 2022, rydym wedi gweld newidiadau staff mewn 5 rôl o fewn y bartneriaeth, gyda 2 o'r rolau yma o fewn tîm craidd Y Carneddau. Gwaith parhaus yn cymryd lle i fynd i'r afael a diffyg cynhwysedd o fewn y bartneriaeth i gyflawni amcanion y cynllun.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12	<p>Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.</p> <p>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.</p> <p>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	4	20	<p>Ail adroddiad canol tymor i'r Comisiwn Ewropeaidd (a hawliad grant cysylltiedig) wedi'i anfon ym mis Medi 2022, ychydig yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd rhywfaint yn ôl ac ymlaen gyda'r Comisiwn. Os fydd popeth yn iawn, disgwylir taliad cyn Nadolig 2022. Cais am estyniad 2 flynedd bellach wedi'i gyflwyno ac yn aros am adborth i weld a oes angen unrhyw beth pellach gennym ni - y Comisiwn yn ymwybodol o'r cais a ragwelir ac wedi dangos eu cefnogaeth mewn egwyddor. Mae'r angen am estyniad yn deillio o oedi mewn rhai pethau y gellir eu cyflawni o ganlyniad i faterion staffio a Covid-19, ond ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.</p> <p>Adborth swyddogol gan y Comisiwn i bawb sy'n adrodd hyd yn hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Ymwelodd Project Monitor ym mis Mawrth 2022 gydag adborth cadarnhaol iawn, a chenhadaeth fonitro bellach wedi'i threfnu ar gyfer 8fed a 9fed Tachwedd 2022.</p> <p>Lwyddodd y prosiect i gyrraedd y trothwy gwariant oedd ei angen er mwyn hawlio'r cyfanswm o £2m gan y Llywodraeth. Mae cyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru nawr wedi dod i ben.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Rheolwr Prosiect
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfodddhaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12	<p>Nid gollwyd rhagor o staff ers gwanwyn 2022, sy'n golygu y bydd y prosiect yn gweithredu i'w gapasiti llawn cyn bo hir (ar ôl i'r Prif Swyddog Ymgysylltu ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth ym mis Rhagfyr 2022).</p> <p>Serch hynny, mae'r aflonyddwch a achosir gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu i'w gapasiti llawn am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, yn golygu bod y prosiect wedi ceisio estyniad o 2 flynedd. Mae'r broses hon wedi cychwyn, a disgwylir cadarnhad terfynol cyn Nadolig 2022.</p>	4	3	12		C (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9	<p>Mae'n rhaid i swyddogion ddilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant.</p>	2	4	8		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Tîm Rheoli
12	Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9	<p>Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff, 4. Cyfraddau cadw staff a salwch. <p>Mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth i recriwtio a chadw staff oherwydd cystadleuaeth am swyddogion ac o ganlyniad mae telerau ac amodau staff wedi'u diwygio. Mae'r Awdurdod wedi adnabod meysydd allweddol i wella cydnerth a chyflawni er mwyn bodloni heriau'r dyfodol. Bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant ar wydnwch staff a'r gallu i gadw a recriwtio.</p>	3	3	9		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Tîm Rheoli

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
13	Effaith yr haint Coronavirus (Covid-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod.	Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr, a methiant cyffredinol i gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu: <ul style="list-style-type: none"> • ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol; • i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith corfforaethol; • i dalu staff a chyflenwyr; • i ennill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd; • cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal; ac • cefnogi llesiant staff. 	4	5	20	<p>Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno mesurau ar gyfer darparu prif systemau'r Awdurdod i alluogi staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tîm Rheoli a Phenaeithiad Gwasanaeth yn adolygu mesurau yn hyn o beth yn barhaus.</p> <p>Trefniadau gweithio amgen wedi eu sefydlu ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu fel mae canllawiau Llywodraeth ynglŷn â gweithio yng nghyfnod Covid-19 yn addasu.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod wedi dychwelyd i dulliau gweithredu blaenorol o weithio ac mae'n annhebygol o wneud hynny. Bydd y Tîm Rheoli yn parhau i fonitro unrhyw bwysau gweithredol oherwydd Covid, fodd bynnag bydd etifeddiaeth cyfnod o'r fath yn cynnwys gwahanol ffyrdd o weithio i'r Awdurdod.</p>	4	3	12		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Tîm Rheoli
14	Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy.	4	4	16	<p>Adolygwyd strwythur staffio a chostau rhedeg y safle er mwyn lleihau costau a chreu diwylliant o ganolbwyntio ar gynhyrchu incwm. Mae gwaith cychwynnol wedi'i gwblhau i'r perwyl hwn, e.e. drwy gomisiynu Cynllun Datblygu Cynulleidfa newydd a chyflwyno cais grant llwyddiannus i wella isadeiledd Yr Ysgwrn. Y cam nesaf fydd penodi Rheolwr Profiad Ymwelwyr yn 2022 (ail hysbyseb).</p> <p>Mae niferoedd ymweliadau ysgolion yn cynyddu eto ac rydym yn hyderus bydd y niferoedd yn dychwelyd i'r lefelau cyn-Covid 19 erbyn 2023. Search hynny, mae ymweliadau grŵp yn llawer is na chyn y pandemig ac mae hynny'n bryder. Bydd swyddogion yn canolbwyntio ar ail-ddatblygu'r gynulleidfa hon dros y gaeaf er mwyn gosod y sylfaeni ar gyfer tymor 2023/24.</p> <p>Derbyniwyd cefnogaeth grant sylweddol yn 2022/23 er mwyn cefnogi gweithgaredd a gwaith addysg a bu hynny'n gymorth i gynnal rhaglen safonol ac apelgar i deuluoedd ac ysgolion.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwyllia-nnol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
15	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Canolfannau Gwybodaeth yn methu a gweithredu oddi fewn i gyllideb oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Canolfannau Croeso yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau.	4	4	16	Mae cynhyrchu incwm ym Metws y Coed wedi gwella'n sylweddol. Mae Beddgelert ac Aberdyfi yn parhau ar y llwybr a osodwyd yn ystod y pandemig. Parhaodd y canolfannau gyda phrinder staff trwy gydol y tymor, a waethywyd gan salwch ac absenoldeb staff. Methwyd â recriwtio aelod o staff fel y bo'r angen i gyflenwi yn y tair canolfan. Mae'r prinderau wedi effeithio ar ein potensial incwm, gan golli dyddiau o fasnachu trwy'r tymor, fodd bynnag mae lefelau incwm yn uwch na'r rhagamcanion. Mae staffio wedi cael effaith llawer mwy negyddol ar safonau gwasanaeth gyda chanolfannau'n agor heb ddigon o staff.	4	3	12		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Rheolwr Canolfannau Gwybodaeth
16	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol.	3	3	9	Er gwaethaf pryderon am ddirywiad incwm yn dilyn Covid-19 a newidiadau eraill yn yr economi cefn gwlad – mae niferoedd ceisiadau yn parhau i fod yn uchel, ac incwm cynllunio wedi bod yn iach iawn drwy gyfnod y pandemig (mor uchel ag erioed). Mi fydd y llinell incwm felly yn cynyddu eto flwyddyn nesaf i £205,000 yn ein cyllidebau. Mi fyddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.	3	3	9		A (Adolygwyd P&A 13.07.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
17	Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwch.	Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi lleol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef.	3	4	12	<p>Gweler Risg 2 uchod. Er mwyn sicrhau dyfodol y Plas rhaid yn gyntaf llwyddo gyda'r model busnes newydd. Ar hyn o bryd, mae Plas wedi bod ar agor am y rhan fwyaf o'r tymor yn dilyn cloeon dro ar ôl tro.</p> <p>Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r model busnes newydd yn llwyddiant o ran costau rhedeg ond mae gennym bellach fwy o wybodaeth am yr agwedd hon wrth i ni edrych yn nol dros y flwyddyn ariannol. Roedd y cyfnod pan oedd y Plas ar agor yn brysur a lefel y staffio yn annigonol. O ganlyniad, ni ellid darparu gwasanaeth llawn bob amser.</p> <p>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun gan arwain at dreiddiad llaith gormodol a cholli ystafelloedd gosod. Rydym yn ymchwilio i'r sefyllfa ar hyn o bryd ac mae gennym nawr Arolwg Cyflwr drafft o'r adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod diweddar o'r Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion o beth sydd angen gwaith ar frys, gan ymchwilio os oes modd gwneud cais am grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law.</p>	3	4	12		A (Adolygydd P&A 13.07.22)	Cyf. Gwas. Corfforaethol
18	Risg o gael ymosodiad Seibr	Colli data a mynediad i'r rhwydwaith	4	3	12	<p>Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau.</p> <p>Serfwrwr wedi ei uwchraddio yn ddiweddar ac rydym yn aros i uwchraddio'r linciau cyfathrebu cyn trefnu profion treiddiad a gwe-rwydo.</p>	3	2	6		A (Newydd 13.07.22)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol

Graddio		Sgôr
Isel		1 – 4
Canolig		5 – 14
Uchel		15 – 25

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	Tachwedd 16eg, 2022
TEITL	ENWAU LLEOEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
AWDUR	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
PWRPAS	Diweddarau Aelodau ar gynnydd y Grŵp Llywio Enwau Lleoedd a chyflwyno egwyddorion drafft ar gyfer enwau tirweddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri

1. CEFNIDIR

- 1.1. Yn Hydref 2020, cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ynglŷn ag arwyddocad enwau lleoedd fel nodwedd o dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a rhai o'r cwestiynau anodd sy'n codi yn sgil yr ymdrech i'w gwarchod.
- 1.2. Ym mis Tachwedd 2020, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod gyda'r cylch gorchwyl canlynol:
 - Datblygu fframwaith polisi i alluogi APCE i amddiffyn a safoni'r defnydd o enwau lleoedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri gan yr Awdurdod, ei bartneriaid a'i randdeiliaid; trwy ystyried safle unigryw Eryri a Chymru a nodi arfer da o feysydd / gwledydd eraill wrth ddatblygu fframwaith
 - Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol gynulleidfaoedd gan gynnwys cynulleidfaoedd uniaith, amlieithog, aml-ethnig a rhyngwladol o bwysigrwydd enwau lleoedd yn Eryri; ac fel ffynhonnell sy'n cryfhau cysylltiadau ag amgylchedd, hanes a threftadaeth yr ardal.
 - Diffinio llwyddiant, rhaglen waith a gyda pha bartneriaid gellid cydweithio.
- 1.3. Erbyn hyn, mae rôl y Grŵp Tasg a Gorffen wedi esblygu yn waith mwy hirdymor fel Grŵp Llywio Enwau Lleoedd, gan gydanbod nad gwaith byr dymor mo hwn. Mae ymdrin â'r miloedd o enwau tirweddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri, eu cofnodi, eu safoni, eu gwarchod a'u hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth ac addysgu pobl am eu bodolaeth a'u harwyddocâd i'n treftadaeth a'n hunaniaeth yn waith parhaus.

- 1.4. Ym mis Medi 2022, cyflwynwyd adroddiad newydd i'r Gweithgor Aelodau enwau lleoedd. Amlygwyd y newidiadau sydd wedi digwydd dros amser yn y dull o gyfeirio at Yr Wyddfa drwy'r enw Cymraeg yn unig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gofynwyd i swyddogion gyflwyno argymellion ffurfiol ar y defnydd o'r enw Yr Wyddfa ac Eryri i'r Awdurdod, gan arwain at yr adroddiad hwn.

2. GWAITH Y GRŴP TASG A GORFFEN

- 2.1. Cyfarfu'r Grŵp Tasg a Gorffen am y tro cyntaf yn Ionawr 2021 a dechreuwyd ar y gwaith o gasglu dros ddau gant o enwau llynnoedd Eryri i'w dadansoddi gan Yr Athro Dylan Ffoster Evans o Brifysgol Caerdydd a'u safoni gan Banel Enwau Lleoedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Cyflwynwyd y rhestr i'r Panel yn Haf 2022 a bwriedir parhau â'r cywaith cynhyrchiol hwn.
- 2.2. O'r dechrau, gwelwyd cyfle i gydweithio gyda gwaith enwau lleoedd Cyngor Gwynedd ac mae Swyddog Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd Cynhenid y Cyngor bellach yn aelod o'r Grŵp Llywio.
- 2.3. Fel rhan o waith y grŵp, comisiyniwyd yr Athro Evans i lunio egwyddorion ar gyfer sut i ymdrin ag enwau tirweddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri mewn achosion lle mae mwy nag un enw yn bodoli ar gyfer yr un un nodwedd.

3. YR EGWYDDORION

- 3.1. Gweler yr egwyddorion drafft yn Atodiad 1. Maent yn gosod yn glir arwyddocâd enwau lleoedd i dreftadaeth, hunaniaeth a'r dirwedd ieithyddol yma yn Eryri. Nod yr egwyddorion ydi atgyfnerthu'r arwyddocâd yma mewn modd cynhwysol, sy'n dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant amrywiol, gan hefyd ei gwneud yn haws i swyddogion wybod pa enw i'w arddel
- 3.2. Serch hynny, rhoi arweiniad i'r Awdurdod mae'r egwyddorion hyn, yn hytrach na gwneud penderfyniad ar ba enwau i'w defnyddio.
- 3.3. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yma i bawb ei fwynhau ac i ddysgu amdano ac yn hynny o beth, mae enwau ei nodweddion tirweddol hefyd i bawb.
- 3.4. Mae'n rhaid amlygu yma ddylanwad yr Arolwg Ordnans mewn meithrin ymwybyddiaeth o enwau tirweddol. Petae enw tref neu bentref yn cael ei gam-enwi ar fap, mae'n anhebygol y byddai'r enw yn newid ar lafar, ond dyna'n union sy'n digwydd wrth gam-enwi nodweddion tirweddol ar fap. Cynddeiriogiwyd cymuned Beddgelert yn ddiweddar gan achos o gam-enwi nodweddion lleol ar fap Arolwg Ordnans. Gan gydnabod bod problemau yn dal i godi, mae'r berthynas rhwng yr Arolwg Ordnans a chyrrff statudol fel Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a'r Awdurdod hwn yn fwy cadarnhaol erbyn hyn ac maen nhw'n dangos eu bod eisiau cydweithio, sy'n argyhoeddi'n dda ar gyfer y dyfodol.
- 3.5. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 58% o drigolion Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg, o gymharu ag 19% drwy Gymru ac mae gennym ddwy iaith swyddogol, y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ddwy iaith yn cyfrannu at ein treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Yma yn Eryri, cadarnle'r iaith Gymraeg, mae'r iaith yn greddiol i'n treftadaeth a'n hunaniaeth ac mae dewis arddel enwau lleoedd Cymraeg yn un ffordd gall yr Awdurdod feithrin a normaleiddio'r Gymraeg. Nid yw'r egwyddorion, serch hynny, yn awgrymu ysgubo enwau lleoedd Saesneg hanesyddol ar nodweddion tirweddol o'r

ardal, ond yn hytrach yn ein annog i ystyried pa neges mae'r Awdurdod am ei gyfleu am enwau lleoedd a'u rôl yn ein treftadaeth ddiwylliannol gyfoes.

4. YR WYDDFA AC ERYRI

4.1. YR WYDDFA

- 4.1.1. Mae dau enw safonol yn bodoli ar gyfer y copa, sef *Yr Wyddfa* yn y Gymraeg a *Snowdon* yn y Saesneg. Yn hynny o beth, mae'r Wyddfa yn unigryw yn ystyr bod gan y copa enwau gwahanol yn y ddwy iaith, sy'n tarddu o wahanol wreiddiau. Yn ôl pob tebyg, yr enw Cymraeg ydi'r hynaf o'r ddau, ond mae'r enw *Snowdon* hefyd yn bodoli ers canrifoedd – yr G11 yn ôl rhai ffynonellau - ac mae'r enw wedi'i ddefnyddio'n eang, hyd yn oed ym marddoniaeth Gymraeg Dafydd Ddu Eryri o'r G18.
- 4.1.2. Mae'r enw mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei arddel ar gopa uchaf yr ardal yn arwyddocaol. Does gan yr Awdurdod ddim grym statudol i newid y defnydd o enwau lleoedd, ond fel un o'r prif gyrff sy'n gofalu am y mynydd, mae gan yr Awdurdod ddylanwad dros ymddygiad eraill parthed y mynydd. Yn 2020 ac yn achlysurol ers hynny, mae enw'r mynydd wedi codi fel testun trafod ar y cyfryngau cymdeithasol, yn y cyfryngau Cymreig a Phrydeinig.
- 4.1.3. Yn wir, ym mis Mehefin, 2021, cyflwynwyd deiseb, o dros bum mil o enwau, i'r Awdurdod yn galw am arddel enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri yn unig yn y ddwy iaith.
- 4.1.4. Ers peth amser, mae cyhoeddiadau'r Awdurdod, gan gynnwys ei gyfryngau cymdeithasol, y wefan newydd a Chynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yn arddel yr enw *Yr Wyddfa* yn y ddwy iaith, gan ddilyn hynny gyda'r enw *Snowdon* mewn cromfachau wrth ymdrin â'r enw yn y Saesneg – *Yr Wyddfa (Snowdon)*. O Gw glo *Yr Wyddfa (Snowdon)*, mae'n glir bod arferiad wedi hen sefydlu ymhlith nifer o gyrff cenedlaethol, gan gynnwys Croeso Cymru, i arddel yr enw Cymraeg ar ein copa uchaf, yn y ddwy iaith, gan gydnabod yr enw Saesneg mewn cromfachau.
- 4.1.5. Dengys hefyd erthyglau gan gyhoeddiadau fel y *Telegraph*, y *Times*, y *Guardian* a'r *Daily Post* sydd hefyd yn cyfeirio at y copa wrth yr enw, *Yr Wyddfa (Snowdon)*. Mae Gw glo'r enw *Yr Wyddfa* hefyd yn amlygu nifer o wefanau poblogaidd Saesneg sy'n defnyddio'r enw Cymraeg bellach ac yn yr un un ysbryd, roedd rhaglen *Countryfile* am Eryri a ddarledwyd ym mis Chwefror 2022, yn dathlu'r iaith a'i henwau lleoedd drwyddi draw, cymaint nes bod angen isdeitlo rhannau health o'r rhaglen, yn y Saesneg. Erbyn Hydref, 2022, gyda'r enw Cymraeg, *Yr Wyddfa*, fydd rhaglen *Countryfile* yn cyfeirio at ein copa uchaf.
- 4.1.6. Mae'r newid yma wedi digwydd, mae'r enw *Yr Wyddfa* yn dod i'r brif ffrwd ac mae'r enw Cymraeg yn cael ei arddel yn y ddwy iaith, mewn cyd-destun eang a phoblogaidd iawn.
- 4.1.7. Ni fydd arddel y ffurf *Yr Wyddfa (Snowdon)* yn ddigon i bawb. Bydd rhai yn awyddus i weld yr enw Cymraeg, *Yr Wyddfa*, yn unig yn cael ei arddel ym mhob iaith gan yr Awdurdod a hynny er mwyn gwarchod yr enw cynhenid, rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a gosod bri ar ei harwyddocâd fel iaith cymunedau Eryri ac un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

- 4.1.8. Mae gan enwau lleoedd hefyd rôl hanfodol mewn cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae ystadegau Google yn dangos bod degau o filoedd o ddefnyddwyr yn chwilio am yr enwau *Snowdon* a *Snowdonia* yn fisol. Er mwyn parhau i gyrraedd at y gynulleidfa hon, mae angen darganfod ffordd i sicrhau eu bod yn dal i ddarganfod gwybodaeth am y mynydd a'r ardal wrth ddefnyddio peiriannau chwilio.
- 4.1.9. Mae'n hanfodol bwysig tynnu pobl i mewn, eu cynnwys yn ein treftadaeth a'u galluogi i'w deall a'i gwerthfawrogi drostynt eu hunain. Os nad ydynt yn deall, fydden nhw ddim yn ymddiddori.
- 4.1.10. Fel amlygir uchod, gyda defnydd cynyddol o *Yr Wyddfa* neu *Yr Wyddfa (Snowdon)* yn y Saesneg gan ystod eang o gyrff a chyhoeddiadau, mae ymwybyddiaeth o'r enw, *Yr Wyddfa* wedi cynyddu. Dal i gynyddu fydd yr ymwybyddiaeth yma dros amser.
- 4.2. ERYRI
- 4.2.1. Mae'r enw Eryri yn enw a roddir ar y Parc Cenedlaethol, ond yn hanesyddol, mae'n cyfeirio at wahanol ddiffiniadau o'r ardal, e.e. cadwyn mynyddoedd yn nalgylch gogleddol y Parc Cenedlaethol. Mae'r un un peth yn wir ar gyfer yr enw Saesneg, *Snowdonia*. Mae'r enw yn fwy amhenodol ac felly yn cynnig ei hun ar gyfer newid i arferiad o ddefnyddio'r enw Cymraeg, *Eryri* yn unig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.2.2. Fel uchod, yng nghyd-destun Yr Wyddfa, mae nifer fawr o bobl yn chwilio am y term *Snowdonia* arlein yn fisol ac mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gyrraedd y gynulleidfa hon.

5. RHAGLEN WAITH Y GRŴP LLYWIO

- 5.1. Yn 2022-23, bydd y Grŵp Llywio yn canolbwyntio ar y prosiectau canlynol:
- Addysgu pobl am bwysigrwydd enwau lleoedd cynhenid a'u hyrwyddo, e.e. drwy brosiect Enwau a Llesiau'r Carneddau (Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau)
 - Safoni clwstwr arall o enwau lleoedd (i'w penderfynu)
 - Cywaith gyda chanolfan Pontio, Bangor i gasglu a chofnodi enwau yn ardal y Carneddau a Beddgelert a'u dehongli drwy gelf weledol
 - Cydweithio a â Phwyllgor Celf Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd i wireddu prosiect enwau lleoedd y Pwyllgor Celf yn ysgolion dalgylch yr Eisteddfod (sy'n cynnwys rhannau o'r Parc Cenedlaethol).

Argymelliad:

1. I Aelodau fabwysiadu'r *Egwyddorion Enwau Lleoedd* yn Atodiad 1 fel canllaw ar y defnydd o enwau lleoedd gan yr Awdurdod.
2. I Aelodau gymeradwyo defnyddio'r enwau *Yr Wyddfa* ac *Eryri* yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi disgrisiwn i swyddogion i ddefnyddio'r enwau *Yr Wyddfa (Snowdon)* ac *Eryri (Snowdonia)* yn y Saesneg, os bydd y cyd-destun yn galw am hynny at bwrpas addysgu ac ymgysylltu. Rhagwelir mai *Yr Wyddfa* ac *Eryri* fyddai'r ffurfiau arferol a chyffredin a thros amser, wrth i ymwybyddiaeth gynyddu, mai rheiny fyddai'r unig ffurfiau a arddelir gan yr Awdurdod. Byddai'r newid yn digwydd dros amser, fel mae cyhoeddiadau a dehongli'r Awdurdod yn cael eu diweddarau.

Enwau tirweddol Saesneg ym Mharc Cenedlaethol Eryri: rhai egwyddorion cychwynnol

Crynodeb

- Mae enwau Saesneg i'w cael ar nifer o nodweddion tirweddol Parc Cenedlaethol Eryri. Weithiau, maent yn bodoli ar y cyd ag enwau Cymraeg, ond nid bob amser. Fel pob enw arall, maent yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol y Parc.
- Mae ymchwil yn awgrymu y gallai rhoi rhagor o amlygrwydd i enwau lleoedd Cymraeg yn y dirwedd leol (ac ar fapiau, gwefannau, ac ati) gael effaith gadarnhaol ar hyder y gymuned leol yn y Gymraeg.
- Mae nifer sylweddol o'r enwau Saesneg ar nodweddion tirweddol y Parc yn enwau 'eilaidd' ac yn fathiadau eithaf diweddar. Hynny yw, maent yn gynnyrch prosesau megis cyfieithu enwau Cymraeg; cyfaddasu drwy gymryd elfennau o enwau Cymraeg a'u cyplysu wrth elfennau Saesneg; neu drawsleoli enwau o'r tu allan i Gymru. Mae'r prosesau hyn – sy'n rhai digon arferol – wedi digwydd dros gryn amser ac maent yn dal i ddigwydd heddiw. Nid ydynt yn rhan o ymdrech fwriadol i ddisodli enwau Cymraeg, ond – yn amlwg – cynyddu y mae'r enghreifftiau. Yng nghyd-destun enwau o'r fath, gellid dadlau o blaid penderfyniad i ddefnyddio ffurfiau Cymraeg yr enwau yn unig. Wrth gwrs, mae achos pob enw unigol yn wahanol o safbwynt hanes, cyd-destun a defnydd cyfoes.
- Nid pob enw Saesneg sy'n enw 'eilaidd'. *Snowdon* a *Snowdonia* yw'r enghreifftiau amlycaf. Byddai unrhyw benderfyniad o ran y defnydd o'r enwau hyn yn un arwyddocaol a byddai arfer y ffurfiau Cymraeg yn unig yn ddatganiad pwerus a fyddai'n ennyn ymatebion cryf. Teg nodi bod yr enwau hyn yn hynod gyfarwydd yng Nghymru a thu hwnt ac ni ellir dychmygu sefyllfa lle y byddai penderfyniad gan y Parc i ddefnyddio *Yr Wyddfa* ac *Eryri* yn unig (dyweder) yn arwain at ddiflaniad yr enwau *Snowdon* a *Snowdonia*.
- Gall defnydd o enwau Cymraeg helpu i greu profiad unigryw i ymwelwyr o'r tu allan i Gymru. Dylid gweithio i sicrhau bod y profiad hwnnw'n un cadarnhaol a chynhwysol sy'n dyfnhau dealltwriaeth o'r Parc a'i ddiwylliant.
- Yn ei waith dehongli a hyrwyddo, gall y Parc gyfeirio at dreftadaeth enwau lleoedd ym mhob iaith. Nid yw'r ffaith na ddefnyddir enw Saesneg penodol – neu enw Cymraeg penodol o ran hynny – at bwrpasau ffurfiol heddiw yn golygu na ddylid cyflwyno'r enw hwnnw a'i hanes pan fo hynny'n briodol. Er enghraifft, wrth drafod hanes twristiaeth neu unrhyw ddiwydiant arall gallai'r Parc gyflwyno'r enwau Saesneg a fathwyd yn y cyd-destun hwnnw a chydabod eu pwysigrwydd ac unrhyw ddefnydd cyfoes ohonynt.

- Gall defnyddio polisi golygyddol creadigol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, hysbysfyrddau, taflenni, etc. fod yn ffordd i hyrwyddo enwau Cymraeg heb anwybyddu bodolaeth enwau Saesneg.
- Mae rhai nodweddion tirweddol (yn arbennig dringfeydd a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyragored yn y mynydd-dir) nad oes ganddynt enwau Cymraeg, hyd y gellir gweld. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys elfennau Cymraeg, ond mae eraill yn gwbl Saesneg. Gellid ystyried bathu enwau Cymraeg ar gyfer yr enghreifftiau amlycaf (e.e. y rhai sydd i'w gweld ar fapiau a ddefnyddir gan y cyhoedd) ac mae enghreifftiau o fathu o'r math hwnnw eisoes i'w gweld. Ond mwy anodd fyddai defnyddio bathiadau felly yn lle'r enwau Saesneg, neu fathu enwau ar gyfer pob enghraifft o enw Saesneg yn mhob cyd-destun.
- Gallai mabwysiadu polisi enwau lleoedd creadigol a chynhwysol fod yn ffordd amlwg i gwrdd â rhai o nodau ac amcanion Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyflwyniad

- 1 Cymraeg yw iaith trwch yr enwau lleoedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Ond mae gan rai lleoliadau fwy nag un enw – un Cymraeg ac un Saesneg. Ac mae nifer fechan sydd ag enwau Saesneg yn unig. At hynny, mae canfyddiad cryf fod tuedd gynyddol i fathu enwau Saesneg newydd ar gyfer nodweddion sydd eisoes ag enwau Cymraeg. Nod y papur hwn yw ystyried yr enwau Saesneg hyn yng nghyd-destun bwriad gan y Parc i lunio polisi enwau lleoedd. Gallai polisi o'r fath ystyried y defnydd o enwau mewn sawl cyd-destun, e.e. arwyddion, gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol, byrddau gwybodaeth, deunydd addysgol, etc. Sylwer hefyd mai nodweddion tirweddol sydd dan sylw yma. Mae gwaith ar safoni enwau aneddiadau (e.e. pentrefi a threfi) eisoes wedi ei wneud gan Banel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd yr Iaith a'i gyhoeddi yn y [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#).
- 2 Nid yw'r papur hwn yn cynnig dadansoddiad cyflawn ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i bob enw perthnasol. Cynnig man cychwyn yw ei nod ac amlygu rhai ffactorau allweddol y dylid eu hystyried wrth ymdrin ag enwau lleoedd.

Cefndir – pam y mae enwau lleoedd a'u gweladwyedd yn bwysig

- 3 Nid label ar leoliad yn unig yw enw. Mae'r weithred o enwi safle yn rhoi ystyr i'r safle hwnnw, ac yn ei newid o fod yn rhan o 'ofod' annelwig i fod yn 'lle' penodol (Azaryahu 2020). Mae pob enw, ym mha iaith bynnag, yn rhan o dreftadaeth yr ardal y perthyn iddi a gall fod yn rhan bwysig o hunaniaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- 4 Mae enwau lleoedd, pan fyddant yn ymddangos ar arwyddion, yn dod yn rhan o'r *dirwedd ieithyddol*. Mewn astudiaeth ddylanwadol yn 1997, fe ddiffiniodd Landry a Bourhis dirwedd ieithyddol yn nhermau gweladwyedd ac

amlygrwydd gwahanol ieithoedd mewn ardal benodol: '[t]he language of public road signs, advertising billboards, street names, place names, commercial shop signs, and public signs on government buildings combines to form the linguistic landscape of a given territory, region, or urban agglomeration' (1997, t. 25). Mae'r dirwedd ieithyddol yn chwarae rhan bwysig o ran hunaniaeth ardal a'i thrigolion. Gellir ymestyn y syniad o dirwedd ieithyddol i gynnwys gofodau eraill, gan gynnwys y we. Mewn geiriau eraill, mae'r dirwedd ieithyddol yn gysyniad perthnasol i ofod rhithiol hefyd (Ivkovic a Lotherington 2009).

- 5 Nid enwau lleoedd yw'r unig elfennau sy'n cyfrannu at y dirwedd ieithyddol, o bell ffordd. Mae llawer o elfennau eraill i'w cael, wrth reswm. Ond mae enwau lleoedd yn bwysig iawn gan mai nhw, fel rheol, fydd yr unig eiriau Cymraeg sy'n ymddangos ar arwyddion Saesneg, neu ar rannau Saesneg o arwyddion dwyieithog. Bydd llawer o'r enwau hyn yn enwau ar drefi a phentrefi, ond bydd cyfran ohonynt yn enwau ar nodweddion tirweddol. Yn hynny o beth maent yn rhan arwyddocaol o brofiad siaradwyr Saesneg di-Gymraeg sy'n byw yn y Parc neu sy'n ymweld ag ef.
- 6 Gall tirwedd ieithyddol gyflawni dwy rôl sylfaenol: rôl *wybodaethol* (hynny yw, cyfleu gwybodaeth ffeithiol am yr ieithoedd perthnasol) a rôl *symbolaidd* (Landry a Bourhis 1997, t. 25).
- 7 Ar lefel *wybodaethol*, mae'n amlwg fod tirwedd ieithyddol Parc Cenedlaethol Eryri yn cyfleu'r wybodaeth fod dwy iaith swyddogol: y Gymraeg a'r Saesneg. Ond er bod cyrff swyddogol gan amlaf yn codi arwyddion dwyieithog â'r Gymraeg yn gyntaf, Saesneg yw'r iaith amlycaf ar arwyddion mewn llawer o feysydd eraill (e.e. masnach a thwristiaeth). Prin yw'r arwyddion uniaith Gymraeg o gymharu ag arwyddion uniaith Saesneg. Felly, ar lefel *wybodaethol*, mae tirwedd ieithyddol y Parc yn cyfleu'r wybodaeth fod dwy brif iaith i'w cael, ac – o ystyried y dirwedd ieithyddol yn ei chrynswth – mai'r Saesneg sydd â'r safle cryfaf. Yn wir, y Saesneg yw'r iaith amlycaf yn y dirwedd ieithyddol ym mhob rhan o Gymru.
- 8 Mae hefyd rôl *symbolaidd* i dirwedd ieithyddol sy'n ymwneud â'i heffaith ar wahanol garfanau yn y gymuned. Fel y dywed Landry a Bourhis, '[i]t is reasonable to propose that the absence or presence of one's own language on public signs has an effect on how one feels as a member of a language group within a bilingual or multilingual setting' (1997, t. 27). Yn yr un modd, wrth drafod yr ieithoedd Sámi yng ngogledd Sweden, dywed Daniel Andersson fod rôl symboliadd y dirwedd ieithyddol yn cynnwys 'the signals that the linguistic landscape sends to groups of people; for example, the presence of one's own language in the linguistic landscape positively influences that group's language and identity' (2020, t. 105). Gan eu bod yn rhan bwysig o'r dirwedd ieithyddol, mae enwau lleoedd (ym mha iaith bynnag) yn cyfrannu at y rôl symbolaidd hwn.
- 9 Felly nodir uchod, mae'r dirwedd ieithyddol yn rhan amlwg o brofiad twristiaid sy'n ymweld â'r Parc. Gall y dirwedd ieithyddol greu profiad amgen i ymwelwyr o'r tu hwnt i Gymru. Mae Richard Coates wedi nodi bod defnydd gweledol o'r Gymraeg yn 'arallu' y dirwedd ieithyddol ar gyfer ymwelwyr i

Gymru, gan greu profiad gwahanol i'r hyn y maent yn gyfarwydd ag ef yn eu hardaloedd eu hunain. Mae'n awgrymu y gallai'r 'arallu' hwn gyfrannu at y buddion economaidd a ddaw yn sgil twristiaeth: '[Othering] the linguistic language for visitors to Wales [...] is presumably calculated to have a positive effect on receipt of tourist income' (2020, t. 40). Dylid nodi'r awgrym nad yw hyn yn rhwym o ddigwydd heb roi ystyriaeth ofalus i natur profiad ieithyddol yr ymwelwyr.

- 10 Yn amlwg, gall polisi enwau lleoedd gyfrannu at ffurfio'r dirwedd ieithyddol, yn enwedig pan fo'r enwau dan sylw yn rhai sydd o bwys i'r gymuned leol ac i ymwelwyr. Ym marn Coates, mae modd ystyried effaith polisi enwau mewn mwy nag un ffordd: 'Naming policy therefore potentially faces two ways: normalising a particular aspect of identity internally (especially one which is threatened or contested) and presenting an Othered identity externally' (2020, t. 40). Felly gall polisi enwau gyfrannu at normaleiddio'r defnydd o iaith leiafrifol megis y Gymraeg, yn ogystal â chreu profiad amgen i ymwelwyr.
- 11 Gallwn grynhoi, felly, drwy ddweud bod tirwedd ieithyddol Parc Cenedlaethol Eryri (fel pob tirwedd ieithyddol yng Nghymru) yn cyfleu'r ffaith mai'r Saesneg yw'r iaith ddominyddol. Ond ar y lefel symbolaidd, gallai cynyddu amlygrwydd enwau lleoedd Cymraeg yn y dirwedd ieithyddol honno (e.e. drwy ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar nodweddion tirweddol) gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr yr iaith honno, a chreu profiad amgen i ymwelwyr. Fel y dywed Puzey, 'it is clear that the linguistic landscape plays an important role in the promotion of minority or indigenous languages, and especially with regard to toponyms belonging to these languages' (2009, t. 825).
- 12 Wrth nodi hynny, mae hefyd yn bwysig sicrhau nad yw unrhyw 'arallu' yn cael effaith negyddol. Ond ni fyddai polisi sy'n effeithio ar nifer gymharol fechan o enwau ynddo'i hun yn dod yn agos at newid statws y Saesneg fel iaith ddominyddol y dirwedd ieithyddol. Ac nid ddylid rhagdybio y byddai cefnogaeth i ddefnyddio ffurfiau Cymraeg wedi ei chyfyngu i siaradwyr Cymraeg. Mae eisoes yn wir nad yw gweld 'Yr Wyddfa' neu 'Llyn Tegid', dyweder, mewn testunau Saesneg yn anghyffredin. Cafwyd yn ddiweddar golofn barn o blaid defnyddio'r enw 'Yr Wyddfa' yn unig yn *The Daily Telegraph* (Davies 2021) ac o safbwynt arddull tŷ, gwelwyd *The Sunday Times* hefyd yn blaenoriaethu'r enw Cymraeg wrth gyfeirio at 'Yr Wyddfa (Mount Snowdon)' (Collins 2022).

Cyd-destun ehangach – beth sydd yn digwydd mewn gwledydd eraill?

- 13 Mae enwau lleoedd, gan gynnwys enwau lleoedd mewn ieithoedd lleiafrifol, yn destun trafodaeth ystyrion ar lefel ryngwladol ers degawdau. Digwydd hynny'n aml yng nghyd-destun safoni enwau. Mae'r Cenhedloedd Unedig, er enghraifft, drwy gyfrwng cyfres o gynadleddau ar safoni enwau daearyddol, wedi nodi'r canlynol: 'the preservation of minority and indigenous group culture is recognized as being an important aspect of the work of the standardization of geographical names' (United Nations 2012, t. 37).

Ymhellach, wrth ystyried ‘the recording and use of indigenous, minority and regional language group geographical names’, nodir ‘the promotion of the recording and use of such names is a valuable aid to the recognition, retention and revitalization of indigenous, minority and regional language group heritage’ (United Nations 2012, t. 39). Felly mae cydnabyddiaeth ryngwladol i’r ffaith fod lle amlwg i enwau lleoedd yng nghyd-destun polisi a chynllunio iaith.

- 14 Yn rhyngwladol, mae nifer helaeth o enghreifftiau amlwg iawn o newid polisi enwi er mwyn cydnabod ieithoedd lleiafrifol neu frodorol. Un o’r enwocaf yw’r defnydd o *Uluru* yn hytrach nag *Ayres Rock* (Awstralia). Mae’r [cofnod swyddogol](#) am yr enw hwn ar y North Territory Place Names Register yn nodi’r canlynol: ‘On 15 December 1993 the feature was officially dual named Ayers Rock / Uluru (where both names are equally as important and can be used either together or individually). Following a request from the regional Tourism Association, on the 6 November 2002 the order of the dual names was officially changed to Uluru / Ayers Rock.’ Er bod y ddwy ffurf yn dal yn swyddogol, felly, ymddengys mai *Uluru* sydd bellach yn arferol mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg llai ffurfiol (e.e. *Uluru* yn unig yw enw’r cofnod ar [Wikipedia](#) Saesneg).
- 15 Fel y dywed Andersson, ‘[i]n the wake of strengthened minority policy globally, many Western countries today are striving to mend some of the damage that colonial place-naming practices have done, by acknowledging precolonial names and helping to revitalize their usage’ (2020, t. 104). Yn sgil hynny, gwneir cymariaethau weithiau rhwng enwau fel *Uluru* (ac achosion tebyg mewn gwledydd megis Seland Newydd a Chanada) ac enwau lleoedd Cymraeg. Ond dylid pwysleisio bod gwahaniaethau cwbl sylfaenol rhwng y cyd-destunau hyn a pherthynas Cymru a threfedigaethu ac y gall cymariaethau o’r fath fod yn gamarweiniol os nad yn niweidiol. Er hynny, ac er y gwahaniaethu sylfaenol, mae hyn eto yn pwysleisio bod ymdrechion i roi amlygrwydd newydd i enwau lleoedd mewn ieithoedd lleiafrifol yn ffenomen fyd-eang.
- 16 Mwy perthnasol i Gymru, efallai, yw’r sefyllfa yn y Gaeltacht yn Iwerddon. Ar sail [cymal 32](#) o Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2003 defnyddir enwau Gwyddeleg yn unig ar arwyddion ffyrdd swyddogol ac ar fapiau Arolwg Ordans Iwerddon. (Bu i hyn arwain at drafodaethau estynedig a newid polisi yn achos tref An Daingean / Dingle. Ond fel y nodwyd eisoes, nid yw enwau trefi dan ystyriaeth yn y papur hwn. Gw. ymhellach Puzey 2009, t. 825; a Moriarty 2012.)

Enwau lleoedd a ‘rhinweddau arbennig’ Parc Cenedlaethol Eryri

- 17 Yn ei Gynllun Datblygu Lleol, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cyfeirio at y ‘cyfrifoldeb i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol’. Ychwanega mai’r ‘cyfuniad cymhleth hwnnw rhwng pobl, bywyd

gwyllt a'r amgylchedd sy'n rhoi i ni, dros amser, "Rhinweddau Arbennig" Eryri sydd mor werthfawr i ni heddiw, ac sy'n cyfrannu'n fawr at ansawdd bywyd trigolion y Parc a'r lluo o bobl sy'n ymweld â'r ardal' (Parc Cenedlaethol Eryri, t. 44).

- 18 Wrth gyfeirio at 'rinweddau arbennig' y Parc, mae'r Cynllun Datblygu'n nodi 'Hyfywedd parhaus yr iaith Gymraeg fel prif iaith llawer o gylchoedd cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'r agwedd hon yn amlwg mewn enwau lleoedd lleol sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal' (t. 17). Gwelir felly fod y Parc eisoes wedi datgan bod enwau lleoedd yn rhan o'r hyn sy'n ffurfio 'rhinweddau arbennig' Eryri. Gan hynny, mae gweithio'n rhagweithiol i ddiogelu a hyrwyddo'r enwau lleoedd eisoes yn rhan greiddiol o genhadaeth y Parc.

laith ac enwau lleoedd yn y Parc

- 19 Cymraeg yw iaith mwyafrif helaeth yr enwau lleoedd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hynny'n wir yn achos enwau aneddiadau (e.e. trefi a phentrefi) ac yn achos y prif enwau tirweddol (e.e. mynyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd, clogwyni, creigiau, afonydd, a llynnoedd). Rhai mathau o enwau sy'n deillio o gyd-destun y diwydiannau hamdden ac awyragored yw'r eithriadau amlycaf yn hyn o beth. Er enghraifft, mae tuedd i enwau ar ddringfeydd neu lwybrau yn yr ucheldir fod yn y Saesneg yn unig gan eu bod yn aml yn cael eu bathu gan unigolion neu grwpiau di-Gymraeg. Yn aml iawn, mae'r rhain yn enwau ar nodweddion bychain na fyddent ond yn berthnasol i grŵp penodol o ddefnyddwyr (e.e. dringwyr). Ond mae eraill yn ymddangos ar fapiau'r Arolwg Ordnans. Mae tuedd weithiau i gredu bod enwau fel hyn yn disodli enwau Cymraeg. Ond yn aml, ymddengys nad oes cofnod o unrhyw enwau Cymraeg ar y nodweddion hyn gan mai dringfeydd ydynt nad oeddynt yn bodoli fel y cyfryw cyn iddynt gael eu dringo am y tro cyntaf. Y weithred o'i henwi sy'n eu creu fel 'lleoedd' (gw. §3 uchod).
- 20 Dylid nodi hefyd nad yw'n arferol i gyrff swyddogol megis y Parc ddefnyddio pob ffurf bosibl ar enw. Er enghraifft, er bod enwau fel *Pesda* (Bethesda) a *Llanbêr* (Llanberis) yn gyfarwydd ar lafar, ni fyddai'n arferol i gyrff cyhoeddus arddel yr enwau hynny yn y rhan fwyaf o gyd-destunau. Nid yw hynny'n golygu y dylid dibrisio'r ffurfiau hynny gan fod eu defnyddio'n gwbl addas mewn rhai cyd-destunau. Felly mae gwahaniaeth pwysig rhwng dewis peidio ag arddel enw neu ffurf ar enw, a cholllfarnu'r enw hwnnw. (Gall fod ambell eithriad, megis yr enw *Nameless Cwm* [Cwm Cneifion], sy'n ennyn teimladau cryfion gan fod yr enw *Nameless Cwm* fel petai'n gwneud honiad cyfeiliornus – a sarhaus ym marn rhai – am ddiffyg enw Cymraeg. Ond hynod brin yw enwau o'r fath.)
- 21 Er mai Cymraeg yw iaith arferol yr enwau ar brif nodweddion tirweddol y Parc, mae rhai enwau Saesneg i'w cael hefyd. Prin iawn yw'r rheini sy'n mynd yn ôl i'r Oesoedd Canol, fel y gwna *Snowdon* (Yr Wyddfa) a *Pemblermere* (enw ar Lyn Tegid nas defnyddir bellach; Owen a Morgan 2007, t. 300). Daw llawer

mwy o'r ddeunawfed ganrif ac yn arbennig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y cyfnod pan ddaeth twristiaeth yn rhan gynyddol amlwg o fywyd yn ardal y Parc. Daw enwau eraill o gyfnodau mwy diweddar eto.

- 22 Mae enwau Saesneg y Parc hefyd yn rhan o'i dreftadaeth. Wrth ystyried hynny, daw'n amlwg hefyd fod llawer iawn o'r enwau Saesneg yn enwau 'eilaidd'. Hynny yw, nid ydynt yn fathiadau gwreiddiol ond yn hytrach maent yn tynnu ar enwau Cymraeg sy'n bodoli eisoes, neu maent yn enwau sydd wedi eu trawsleoli o fannau eraill.
- 23 Enwau sy'n gyfieithiadau uniongyrchol o'r Gymraeg yw'r categori symlaf. Yma y perthyn enwau megis *Swallow Falls* (< Rhaeadr y Wennol) a *Bearded Lake* (< Llyn Barfog). Mae'r rhain, yn eu ffurfiau presennol, yn mynd yn ôl i'r 19g. (ar *Swallow Falls*, gw. Owen a Morgan 2006, tt. 447–8). Nid yw'r cyfieithiadau Saesneg hyn yn cynnwys gwybodaeth neu draddodiadau nad ydynt i'w cael yn yr enwau Cymraeg, er eu bod weithiau'n ffafrio un ffurf neu un dehongliad penodol o'r enwau Cymraeg hynny. Cyfieithiad o Rhaeadr y Wennol yw *Swallow Falls*, er bod tybiaeth hirhoedlog (ond anodd ei chyfiawnhau) mai Rhaeadr Ewynnol yw'r ffurf Gymraeg wreiddiol (Owen a Morgan 2006, t. 447). Yn achos Llyn Barfog, mae'n debyg mai tyfiant ar ymylon y llyn sy'n cyfri am y gair *barfog*, ond sylwer bod John Rhys wedi cynnig y gall mai enw ar unigolyn yw *Barfog* yn yr achos hwn (Rhys 1901, t. 142).
- 24 Mae dosbarth arall o enwau Saesneg nad ydynt yn gyfieithiadau, ond yn hytrach yn fathiadau sy'n enwi un nodwedd dirweddol ar sail nodwedd amlwg arall. Yn yr enwau hyn y patrwm arferol yw enw priod Cymraeg + enw cyffredin Saesneg. Enghreifftiau o hyn yw *Bala Lake* (Llyn Tegid), *Idwal Beach* (Y Ro), *Ogwen Falls* (Rhaeadr y Benglog), *Aber Falls* (Rhaeadr Fawr), *Vale of Ffestiniog* (Dyffryn Maentwrog). Eto, enwau 'eilaidd' yw'r rhain a ffurfir ar sail enwau Cymraeg sy'n bodoli eisoes.
- 25 Enwau a drawsleolwyd o fannau neu gyd-destunau eraill yw'r categori olaf o enwau 'eilaidd'. Enghraifft o hynny yw *Happy Valley* (Cwm Maethlon), enw a gymerwyd o nofel Samuel Johnson, *Rasselas* (1759) ac sydd i'w weld mewn sawl lleoliad ledled y byd, gan gynnwys un ger Llandudno. Yn achos *Happy Valley* (Cwm Maethlon), mae'r enw hefyd yn lled-gyfieithiad o'r enw Cymraeg Dyffryn Gwyn. Enghraifft arall yw *Fairy Glen* am Ffos Anoddun. Mae sawl *Fairy Glen* yn yr Alban ac mewn gwledydd eraill hefyd. Mae'n bosibl fod *Devil's Kitchen* (Twill Du, Cwm Idwal) yn y categori hwn hefyd. Ceir y cofnod cyntaf ohono yng ngwaith Thomas Pennant (1726–98). Mae'n enw sydd i'w gael mewn sawl man yn Lloegr a Gogledd America, gan gynnwys un ger Clawdd Offa yn St Briavel's, Swydd Gaerloyw.
- 26 Prin yw'r enwau Saesneg ar nodweddion o sylwedd nad ydynt yn deillio o'r enwau Cymraeg. Ond mae rhai i'w cael, megis *Shell Island* am Ynys Fochras. Mae'r enw hwn yn cyfleu rhywbeth am y safle sydd yn wahanol i'r enw Cymraeg. Ond gellid dadlau bod *Shell Island* i gryn raddau yn enw busnes, sef y maes gwyliau eang iawn sydd ar y safle. Os felly, gellid gwahaniaethau rhwng y nodwedd dirweddol (Ynys Fochras) a'r atyniad gwyliau sydd arno (*Shell Island*).

Yr Wyddfa ac Eryri / Snowdon a Snowdonia

- 27 Yr enwau hyn, wrth reswm, yw enwau mwyaf nodedig y Parc ac yn ddiweddar mae'r defnydd arnynt wedi bod yn bwnc llosg. Mae hanes y ffurfiau hyn wedi ei drafod mewn sawl man, ac mae gwefan Michael Freeman ([‘Early Tourists in Wales: 18th and 19th century tourists’ comments about Wales](#)) yn nodi cyfoeth o ffurfiau hanesyddol. Yn y bôn, gellir nodi bod yr enghraifft gynharaf o *Snowdon* (neu ffurf gyfatebol) i'w chael yn 1095 a bod yr enghraifft gynharaf o *Yr Wyddfa* (neu ffurf gyfatebol) yn dod o 1284 (Owen a Morgan 2006, t. 443). Nid yw hynny'n golygu bod yr enw Saesneg yn hŷn, dim ond bod y cofnod cyntaf yn gynharach. Difyr hefyd yw nodi i'r bardd Llygad Gŵr alw Llywelyn ap Gruffudd yn 'eryr Snawdwn' mewn cerdd a luniwyd oddeutu'r flwyddyn 1258. Defnyddid y ffurf Ladin *Snowdonia* yn yr Oesoedd Canol ond prin fu'r defnydd wedi hynny cyn i Thomas Pennant boblogeiddio'r ffurf yn Saesneg yn y ddeunawfed ganrif. Ceir ffurf ar *Eryri* mewn testun Lladin a luniwyd yn y nawfed ganrif. Mae'n amlwg felly fod hanes hirfaith i'r enwau hyn, er y gellid dadlau mai adferiad hynafiaethol sydd wrth wraidd y defnydd cyfoes o *Snowdonia*.
- 28 Gan dderbyn felly fod *Snowdon* yn enw arwyddocaol a phwysig, a fyddai penderfyniad gan y Parc Cenedlaethol i arfer *Yr Wyddfa* yn unig yn peryglu ei fodolaeth? Byddai'n anodd iawn dadlau hynny gan nad yw bodolaeth yr enw *Snowdon* yn ddibynnol ar ddefnydd y Parc. Fel y dywed Nick Livesey (wrth nodi ei wrthwynebiad i ddefnyddio ffurfiau Cymraeg yn unig), 'I can't imagine that Yr Wyddfa will ever be adopted by the masses that climb it. The name Snowdon is etched into the British psyche as is Snowdonia, they are iconic terms' (Bailey 2021). Mae gwirionedd yn hynny ac anodd dychmygu'r enw hwnnw'n cael ei 'gollu' neu'n 'diflannu' mewn unrhyw ffordd.

Enwau sydd yn Saesneg yn unig neu'n wreiddiol

- 29 Prin yw'n aneddiadau sydd ag enwau Saesneg yn unig. Un amlwg yw *Fairbourne*, nad oes iddo enw Cymraeg cydnabyddedig (Owen a Morgan 2006, t. 145).
- 30 Fodd bynnag, mae nifer o enwau sy'n gysylltiedig â mynydda a dringo nad oes enwau Cymraeg penodol arnynt, neu y bu'n rhaid bathu enwau Cymraeg yn ymateb i'r enwau Saesneg. Ni ellir nodi pob achos yma (maent yn dra niferus), ond tynnir sylw at rai enghreifftiau perthnasol. Noda Ieuan Wyn y 'gelwir crognant Clogwyn y Geifr yng Nghwm Idwal yn "Devil's Appendix"' (2020). Fe ellid trosi hynny'n enw ffurfiol 'Crognant Clogwyn y Geifr', ond ymddengys mai bathiad (rhannol) newydd fyddai hynny, yn hytrach nag enw sy'n bodoli eisoes. Nodir yr enw *Mushroom Garden* ar fapiau'r Arolwg Ordnans am lethr o dan Gerrig Gleision (Cwm Idwal). Nid yw'n glir a oes enw Cymraeg sy'n cyfateb *yn union*, er bod Coed Cerrig y Frân a'r Rhiwiau yn yr un ardal. Mae *Cenotaph Corner* yn ddringfa ar Ddinas y Gromlech (Nant Peris); ymddengys nad oes ganddo enw Cymraeg. Mae'r enw Creigiau Cwm

Graeanog wedi ei gynnig yn enw Cymraeg ar *Atlantic Slabs* (Wyn 2020). Ond mae'r enwau [Llechen Cytrolar](#) a [Creigiau'r Rowlar](#) i'w cael yn lleol hefyd. Mae *Pillar of Elidir* yn enw sydd ar fapiau'r Arolwg Ordnans yn cyfeirio at ran o Graig Cwrwgl (Elidir Fawr). Eto, nid ymddengys fod enw Cymraeg penodol.

- 31 Mae nifer helaeth o enwau o'r mathau hyn i'w cael. Oni bai fod proses o gyfieithu neu fathu bwriadus yn cael ei ddatblygu, mae'n debyg mai ffurfiau Saesneg yn unig a fydd ar lawer o nodweddion fel y rhain. Pe bai dymuniad i gael enwau Cymraeg, gellid dadlau mai bathu enwau gwreiddiol yn y Gymraeg fyddai'r cam synhwyrol, yn hytrach na chyfieithu air am air o'r Saesneg.

Casgliadau

- 32 Wrth ystyried pwysigrwydd gweladwyedd enwau Cymraeg yn y dirwedd ieithyddol (ac mewn peuoedd gweladwy eraill, megis mapiau a'r rhyngrwyd), mae dadl gref o blaid gwneud yn fawr o gyfleoedd i ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig, e.e. ar arwyddion ac mewn testunau Saesneg eu hiaith. Gallai polisi enwau lleoedd hefyd annog defnydd creadigol o 'arddulliau tŷ' er mwyn blaenoriaethu defnydd o enwau Cymraeg e.e. ar dudalen gwe Saesneg fe ellid nodi unrhyw enw Saesneg mewn cromfachau y tro cyntaf y'i henwir, ond defnyddio'r enw Cymraeg yn unig wedi hynny. Dylid nodi hefyd bwysigrwydd sicrhau bod gan y gwasanaethau brys restrau cyflawn o enwau o bob math er mwyn gofalu am ddiogelwch y cyhoedd.
- 33 Gwelwyd bod llawer o'r enwau Saesneg a ddefnyddir yn y Parc yn rhai 'eilaidd' (yn gyfieithiadau megis *Swallow Falls*; yn seiliedig ar enwau Cymraeg eraill megis *Bala Lake*; neu'n enwau a drawsleolwyd o fannau eraill, megis *Happy Valley*). Gellid dadlau y byddai defnyddio'r enwau Cymraeg yn unig yn yr achosion hyn yn gam cymesur ac yn gydnaws ag ymrwymiad y Parc i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol. Gellid dadlau yn yr un modd am ddefnyddio enw megis Ynys Fochras (er enghraifft) yn enw ar nodwedd dirweddol, gan fod yr enw Saesneg *Shell Island* wedi bwrw gwreiddiau dwfn fel safle twristiaeth ac nad yw mewn unrhyw berygl o gael ei golli.
- 34 Yr achos pwysicaf yw *Snowdon* a *Snowdonia*. Ymddengys mai adferiad o'r ddeunawfed ganrif yw *Snowdonia*, ond mae'n gwbl gyfarwydd ledled Prydain fel ag y mae *Snowdon*. Pe byddai'r Parc yn dewis defnyddio'r enwau Cymraeg bob amser, ni fyddai perygl i'r enwau hyn – sydd yn sicr yn rhan bwysig o dreftadaeth y Parc – gael eu colli. Wrth gwrs, byddai'n rhaid wrth drafodaeth ofalus cyn dod i benderfyniad ar enw mor bwysig a byddai angen rhoi ystyriaeth lawn i oblygiadau ehangach o ran delwedd y Parc, twristiaeth ac ati. Ond mae'r ymchwil a nodwyd uchod yn dangos y gallai defnyddio enwau Cymraeg yn unig gael effaith gadarnhaol ar y canfyddiad o'r iaith a hefyd gyfrannu at greu profiad amgen i ymwelwyr.
- 35 Mae'r enwau Saesneg (nad oes enwau Cymraeg cyfatebol iddynt) sy'n aml yn gysylltiedig â mynydda a dringo yn gategori gwahanol eto. Bydd rhai o'r rhain, mae'n siŵr, yn gyfyngedig i lyfrau neu wefannau dringo ac felly ni fyddant yn

weladwy i drwch y boblogaeth. Ond mae eraill yn ymddangos ar fapiau ac arwyddion ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad fod y dirwedd ieithyddol yn graddol Seisnigo. Byddai modd ystyried llunio enwau Cymraeg ar gyfer y rhai mwyaf amlwg, ond mae'n annhebygol y byddai'n enwau newydd o'r fath yn disodli'r enwau Saesneg presennol. Nid ar chwarae bach y mae bathu enwau newydd, a byddai angen ystyried goblygiadau hynny'n ofalus.

DYLAN FOSTER EVANS

Mawrth 2022

Llyfryddiaeth

Andersson, Daniel. 2020. Indigenous Place-Names in (Post)colonial Contexts: The Case of Ubmeje in Northern Sweden. *Scandinavian Studies* 92(1), tt. 104–126.

Azaryahu, Maoz. 2020. Name-Making as Place-Making. Yn: Caiazzo, Coates ac Azaryahu, tt. 11–27

Bailey, Dan. 2021. Call for Snowdon to be known by Welsh name Yr Wyddfa. UKClimbing. https://www.ukclimbing.com/news/2021/04/call_for_snowdon_to_be_known_on_ly_by_welsh_name_yr_wyddfa-72764. Gwelwyd 2 Chwefror 2022.

Caiazzo, Louis; Coates, Richard ac Azaryahu, Maoz. gol. 2020. *Naming, Identity and Tourism*. Newcastle upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing.

Cenoz, Jasone a Gorter, Durk. 2006. Linguistic Landscape and Minority Languages. *International Journal of Multilingualism* 3(1), tt. 67–80.

Coates, Richard. 2020. Naming, Packaging and the Management of Expectations. Yn: Caiazzo, Coates ac Azaryahu, tt. 29–43.

Collins, David. 2022. Mountain panic over Instagram hikers in high heels. *The Sunday Times*, 30 Ionawr. Ar-lein. <https://www.thetimes.co.uk/article/mountain-panic-over-instagram-hikers-in-high-heels-mwbrxd2d>. Gwelwyd 2 Chwefror 2022.

Davies, Elwyn. gol. 1967. *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-Names*, trydydd argraffiad. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Davies, Gareth. 2021. It's high time that Snowdon was reclaimed from the English and referred to only as Yr Wyddfa. *The Daily Telegraph*, 29 Ebrill. Ar-lein. <https://www.telegraph.co.uk/news/2021/04/29/high-time-snowdon-reclaimed-english-referred-yr-wyddfa/>. Gwelwyd 2 Chwefror 2022.

Freeman, Michael. d.d. Snowdon Place Names. Yn: Early Tourists in Wales: 18th and 19th century tourists' comments about Wales. Ar-lein. <https://sublimewales.wordpress.com/attractions/snowdon/snowdon-the-nature-of-the-evidence/snowdon-place-names/>. Gwelwyd 2 Chwefror 2022.

- Ivkovic, Dejan, a Lotherington, Heather. 2009. Multilingualism in cyberspace: conceptualising the virtual linguistic landscape. *International Journal of Multilingualism*, 6(1), tt. 17–36.
- Landry, Rodrigue, a Bourhis, Richard Y. 1997. Linguistic Landscape and Ethnolinguistic Vitality: An Empirical Study. *Journal of Language and Social Psychology* 16(1), tt. 23–49.
- Moriarty, Máiréad. 2012. Language Ideological Debates in the Linguistic Landscape of an Irish Tourist Town. Yn: Gorter D., Marten H. F., a Van Mensel L. gol. *Minority Languages in the Linguistic Landscape*. Palgrave Studies in Minority Languages and Communities. London: Palgrave Macmillan, tt. 74–88
- Owen, Hywel Wyn a Morgan, Richard. 2006. *Dictionary of the Place-Names of Wales*. Llandysul: Gwasg Gomer
- Parc Cenedlaethol Eryri. d.d. [Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–31: Datganiad Ysgrifenedig](#). Parc Cenedlaethol Eryri.
- Puzey, Guy. 2009. [‘Opportunity or Threat? The Role of Minority Toponyms in the Linguistic Landscape’](#). *Proceedings of the 23rd International Congress of Onomastic Sciences (ICOS XXIII)*, tt. 821–827.
- Rhys, John. 1901. *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, cyf. 1. Oxford: Clarendon Press
- United Nations (prepared by Natural Resources Canada). 2012. [Resolutions adopted at the ten United Nations conferences on the standardisation of geographical names, 1967, 1972, 1977, 1982, 1987, 1992, 1998, 2002, 2007, 2012](#).
- Wyn, Ieuan. 2020. [Rhaid Gwarchod Enwau Lleoedd](#). *Llais Ogwen*, 511 (Gorffennaf), t. 6

ADRODDIAD Y GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR 7 MEDI 2022**PRESENNOL:****Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Owen (Cadeirydd), Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Helen Pye, Angela Jones, Naomi Jones, Dana Williams, Anwen Gaffey;

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gyda'r dilysu'r cofnodion.

1. Ymddiheuriadau

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Kim Jones; Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones; Mr. Dafydd Edwards.

2. Datgan Budd

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. Enwau Lleoedd Parc Cenedlaethol Eryri

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y Grŵp Llywio Enwau Lleoedd a chyflwyno egwyddorion drafft ar gyfer enwau tirweddau ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr adroddiad a'r cefndir. Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau hefyd gan yr Athro Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd a gomisiynwyd i lunio set o egwyddorion ar sut i ymdrin ag enwau tirweddau ym Mharc Cenedlaethol Eryri (Atodiad 1).

Gofynnodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i'r Aelodau drafod ac ystyried yr egwyddorion drafft a rhoi arweiniad i'r Grŵp Llywio a swyddogion baratoi polisi i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mr. Brian Angell a Mr. Dafydd Thomas yn amlinellu eu sylwadau ar yr eitemau ar yr Agenda. Hefyd, hysbyswyd yr Aelodau am aelodaeth y Grŵp Llywio Enwau Lleoedd - y Cynghorydd Elwyn Edwards, y Cynghorydd June Jones a'r Cynghorydd Dilwyn Roberts.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad yn fanwl:-

- Dywedodd y swyddogion y ceisiwyd cynrychiolaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fod yn bartneriaid ar y grŵp llywio, ond heb lwyddiant. Estynnir gwahoddiad pellach, a byddai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir yn ceisio cysylltu â'r Swyddog Iaith a chynghori'r Cynghorydd Dilwyn Roberts ar y cynnydd.
- Croesawodd yr aelodau yr adroddiad manwl a oedd hefyd yn amlygu materion sydd angen eu craffu ymhellach megis y defnydd o eiriau sy'n gyfieithiadau uniongyrchol megis 'Swallow Falls' a geiriau sy'n enwau eilradd fel Llyn Bala ar gyfer Llyn Tegid.
- Trafododd yr aelodau bwysigrwydd sut mae'r enwau'n ymddangos ar fapiau Arolwg Ordians. Dywedodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol fod gan yr AO a'r Awdurdod berthynas waith dda a fydd yn parhau i gryfhau.
- cadarnhaodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol fod holl gyhoeddiadau'r Awdurdod yn cyfeirio at Yr Wyddfa yn Gymraeg a Saesneg a chroesawodd fod rhai papurau newydd, megis y Daily Telegraph a'r Sunday Times, bellach yn defnyddio'r enw Cymraeg 'Yr Wyddfa' gyda (Mount Snowdon) mewn cromfachau, er nad oedd hyn yn wir am y Daily Post.
- Hysbyswyd yr Aelodau mai'r Awdurdod oedd y fforwm priodol ar gyfer argymhellion i gyfeirio at Yr Wyddfa ac Eryri yn unig.
- Bu aelodau a swyddogion yn trafod y newid llwyddiannus yn y defnydd o'r enw Ayres Rock / Uluru a oedd wedi dechrau gyda'r ddau enw yr un mor bwysig ac sydd bellach wedi symud ymlaen i Uluru / Aires Rock sy'n rhoi mwy o statws i'r iaith frodorol.
- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am ei hadroddiad rhagorol.

PENDERFYNWYD

1. nodi'r adroddiad.

2. cymeradwyo'r egwyddorion drafft i roi arweiniad i swyddogion baratoi adroddiad manwl i'w gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd 2022.

5. Papur Trafod ar Ardoll Twristiaeth Leol

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Ymgysylltu a'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy i gyflwyno papur trafod ar drethi ymwelwyr yn wyneb ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sydd i ddod ar Ardoll Twristiaeth Leol bosibl; a cheisio arweiniad strategol yr Aelodau ar y mater.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu yr adroddiad a chyfeiriodd yr Aelodau at bwrpasau'r Parc Cenedlaethol i roi cyd-destun i'r adroddiad, a lle mae gwrthdaro â phwrpasau a dyletswyddau eraill, fod Egwyddor Sandford yn sicrhau bod cadwraeth yn cael blaenoriaeth dros fuddiannau economaidd. Rhoddodd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy drosolwg o effaith twristiaeth ar Barc Cenedlaethol Eryri. Tra ei fod yn bwysig i economi'r ardal, mae hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar yr amgylchedd, cymunedau, a'i seilwaith. Darparodd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy ddata pellach ar natur dymhorol cyflogaeth yn Eryri sef 38% yn Eryri yn 2019, 19% yng Ngogledd Cymru a dim ond 13% ar gyfer gweddill Cymru.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Roedd yr aelodau'n cefnogi'r egwyddor o Ardoll Twristiaeth.
- cytunodd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy i anfon adroddiad STEAM gyda data twristiaeth blynyddol at y Cynghorydd Elwyn Edwards.
- roedd ardoll ymwelwyr o £1-00 y person y noson yn dderbyniol ar yr amod bod y tâl yn amlwg o fudd i gymunedau ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio i greu mwy o swyddi.

- nodi bod twristiaid yn ymweld ag Eryri o bob rhan o'r byd ac nid o Loegr yn unig. Roedd angen newid ymddygiad ymwelwyr, yn enwedig o ran sbwriel, ac y dylid cymhwysu'r ardoll twristiaeth yn sensitif.
- Mae gan Gyngor Gwynedd ordal o 10% ar ffioedd parcio ceir sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio gan y cynghorau cymuned i gynnal toiledau a gwneud gwelliannau megis darparu byrddau gwybodaeth ayb. Derbyniodd Cyngor Cymuned Harlech tua £10,500 yn 2021/22.
- Nododd yr aelodau bryderon y byddai perchnogion cartrefi modur, a oedd yn benderfynol o aros dros nos heb dalu, yn parhau i fod yn broblem.
- y byddai cytundeb ymlaen llaw ar sut i wario'r ardoll yn helpu i hyrwyddo'r ardoll.
- gan y gallai £1-00 y person y noson ddod â £9 miliwn i Wunedd, felly, dylai defnydd o'r ardoll fod yn glir a chytuno arno ymlaen llaw.
- codwyd y baich gweinyddol ar fusnesau lleol o gasglu'r ardollau a'r risg y byddai Llywodraeth Cymru yn lleihau cyllideb sylfaenol yr Awdurdod o ganlyniad i'r ardoll hon.
- teimlai Aelod y dylid cefnogi busnesau sy'n gweithredu'n flynyddol yn hytrach na chyfleusterau tymhorol, megis Airbnb, gan nad ydynt yn cyfrannu cymaint at yr economi leol.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu y byddai'r Awdurdodau Unedol yn gyfrifol am osod yr ardoll ac yn ddelfrydol byddai mecanwaith i'r Parc Cenedlaethol elwa o'r ardoll yn cael ei gytuno.

Cadarnhaodd yr aelodau eu cefnogaeth i bara. 7.3.1 i 7.3.4 o'r adroddiad a gofynnodd i'r Prif Weithredwr baratoi ymateb i bara. 7.3.5. Roedd rheoli sbwriel yn un flaenoriaeth o dan bara. 7.3.6 – 7.3.7 er bod yr Aelodau'n cytuno bod hwn yn faes i'w ystyried ymhellach ar ôl pennu'r ardoll. Yn codi wedi hynny, argymhellodd y Prif Weithredwr y dylai para. 7.3.8 gynnwys ardaloedd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol ac na ddylid gosod llinell ffin bendant.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad ac ymateb yr Aelodau i bara. 7.3 fel yr amlinellwyd uchod.**
- 2. cytuno bod y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn darparu ymateb cryno ar y cyd i'r ymgynghoriad i'w ddilyn i fyny gyda materion sy'n lleol i bob Parc Cenedlaethol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 13.10



Parciau National Cenedlaethol Parks

CYFARFOD GWEITHREDIAETH PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU DYDD LLUN 25 EBRILL 2022 CYFARFOD RHITHIOL, 10.00yb – 11.00yb COFNODION TERFYNOL

YN BRESENNOL:

(PH)	Cyng. Paul Harries	Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) ac APC Arfordir Penfro (APCAP)
(DC)	Cyng. Di Clements	Dirprwy Gadeirydd APCAP
(TJ)	Tegryn Jones	Prif Weithredwr APCAP (Ysgrifenyddiaeth PCC)
(WEJ)	Cyng. Wyn Ellis-Jones	Cadeirydd APC Eryri (APCE) (ymunodd â'r cyfarfod cyn yr eitem Newyddion o'r Parciau [Eitem 11])
(AH)	Cyng. Annwen Hughes	Dirprwy Gadeirydd APCE
(EW)	Emyr Williams	Prif Weithredwr APCE
(GR)	Cyng. Gareth Ratcliffe	Cadeirydd APC Bannau Brycheiniog (APCBB)
(AE)	Parch. Aled Edwards	Is-Gadeirydd, APCBB (ymddiheurodd a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Gyllideb PCC 2022-23 [Eitem 4 isod])
(CMJ)	Catherine Mealing-Jones	Prif Weithredwr APCBB

Hefyd yn bresennol:

Caroline Llewellyn APCAP

I. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i bawb am gyfarfodydd a/neu ddigwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ers y cyfarfod diwethaf, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u mynychu o bell. Ymhlith y rhain oedd y canlynol:

- Dau gyfarfod o Gyngor Partneriaeth Cymru.
- Cyfarfod gyda'r Gweinidog fis Tachwedd 2021.
- Dau gyfarfod o Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, a chafodd ei benodi'n Gadeirydd yn y cyntaf o'r cyfarfodydd hyn.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh **97** not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

- Seminar ddiddorol ar Barciau Cenedlaethol Morol.
- Pedwar cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Cyfarfod Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fis Chwefror 2022.

2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF, 19 TACHWEDD 2021

Nodwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn Codi

a) Adolygiad llai manwl o 'Gwerthfawr a Chydnerth' (Cofnod 2a)

Dywedodd TJ yn hytrach nag adolygu'r ddogfen a enwir uchod y byddai Llywodraeth Cymru yn hytrach yn cyflwyno llythyr cylch gorchwyl tymor y llywodraeth i'r Awdurdodau. Fodd bynnag nid oedd fersiwn terfynol wedi dod i law hyd yn hyn.

NODWYD.

b) Caffael – diwallu gofynion newydd – cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd (Cofnod 2e)

Dywedodd EW bod PCE yn bwrw ymlaen â'i brosiect caffael ac y byddai'n rhannu'r fframwaith cyngor ag APCBB ac APCAP fel y gallent ei ddefnyddio fel templed pe dymument.

NODWYD.

c) Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol (Cofnod 2f)

Dywedodd EW bod y cynllun busnes tair blynedd wedi'i gymeradwyo a bod mwyafrif yr APCau yn Lloegr yn ei gefnogi. Roedd posibilrwydd o dderbyn cyllid gan DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun. Fodd bynnag gallai hyn arwain at raglen waith sy'n canolbwyntio ar Loegr, a byddai'r swyddogion yn monitro'r sefyllfa ac yn diweddarau Llywodraeth Cymru.

NODWYD.

d) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ail Gartrefi (Cofnod 4)

Nodwyd bod cyfarfod anffurfiol o'r Weithrediaeth i gytuno ar ymateb Parciau Cenedlaethol Cymru wedi'i gynnal ar 5 Ionawr 2022.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh **98** not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

NODWYD.

3. CYLLIDEB PCC 2021/22

Cyflwynwyd sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn 2021/22. Nodwyd er bod cyfraniadau wedi'u gwneud i wahanol ddarnau o waith, ychydig iawn o arian oedd wedi'i wario ac y byddai rhyw £9,000 yn cael ei gario ymlaen.

NODWYD.

4. CYLLIDEB PCC 2022/23

Cyflwynodd TJ y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi ei bod yn cynnwys ymrwymiad o £10,000 i gefnogi prosiect y Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru sy'n gweithio gyda chymunedau BAME, ynghyd â nawdd i Sioe Frenhinol Cymru. Gan ei bod yn ddechrau cylch gwleidyddol newydd, roedd £1,000 wedi'i gyllidebu ar gyfer gwaith gyda Grŵp Materion Gwledig Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad i'r ymrwymadau hyn, awgrymwyd y dylai pob APC wneud cyfraniad o £10,000, gan nodi na cheisiwyd unrhyw gyfraniadau ers nifer o flynyddoedd.

O ran y prosiect BAME, dywedodd AE ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Chyngor Mwslimaidd Cymru yn ddiweddar, ac o'r farn y byddent o blaid cymryd rhan. Gofynnodd TJ am fanylion y rhai a gymerodd ran fel y gellid cysylltu, o ran prosiect Cymru ac o ran darn o waith y DU gyfan ar bwnc tebyg, y cyflwynir y manylion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

CYTUNWYD ar Gyllideb PCC 2022/23.

5. ADBORTH O'R CYFARFOD Â'R GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

Siomedig oedd adrodd bod nifer o gyfarfodydd gyda'r Gweinidog wedi'u canslo yn ystod y misoedd diwethaf, a rhagwelwyd na fyddai cyfarfod arall yn cael ei geisio tan ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol a phenodi Cadeiryddion newydd wedi hynny. Dywedodd y Cadeirydd mai'r gobaith oedd y byddai'r Gweinidog yn ymweld â Sir Benfro ar y 23^{ain} o Fai, fodd bynnag dywedodd EW bod ymweliad tebyg ag APC Eryri wedi'i ganslo ar fyr rybudd fis Tachwedd diwethaf.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh **99** not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

NODWYD.

6. CYNLLUN BUSNES PCC 2022 – 2025

Dywedodd TJ bod cynllun busnes wedi'i ddrafftio. Fodd bynnag, gan nad oedd llythyr cylch gwaith y cytunwyd arno wedi dod i law oddi wrth Llywodraeth Cymru, roedd y cynllun yn eithaf hyblyg, a gellid ei wneud yn fwy penodol maes o law. Roedd ymgyrch glir gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdodau gydweithio, ac roedd Parciau Cenedlaethol Cymru yn enghraifft dda o'r cyfryw gydweithio.

CYTUNWYD ar Gynllun Busnes 2022-25.

7. CYMORTH I'R AELODAU

O ystyried bod pob Awdurdod yn disgwyl newid yn eu haelodaeth yn dilyn yr etholiad Llywodraeth Leol oedd ar ddigwydd, ac y byddai APCau Bannau Brycheiniog ac Eryri hefyd yn derbyn Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru maes o law, cytunwyd ei bod yn bwysig i'r Aelodau newydd fod yn glir am yr hyn a ddisgwylid ganddynt o'r cychwyn, neu hyd yn oed cyn iddynt ymuno. Roedd arweiniad a chymorth clir yn hanfodol. Rhagwelwyd y byddai'r Gweinidog yn cynnwys y mater hwn yn y llythyr Cylch Gwaith, ac awgrymwyd felly y dylid trefnu cyfarfod yn benodol i drafod cymorth i'r Aelodau, y gellid gwahodd Swyddogion perthnasol iddo hefyd. Y gobaith hefyd oedd cynnal y Seminar Aelodau eleni, gan yr ystyrir hwn yn gyfle pwysig i ddysgu oddi wrth ein gilydd.

CYTUNWYD i drefnu cyfarfod anffurfiol i drafod Cymorth i'r Aelodau.

8. ADRODDIADAU CARBON

Atgoffwyd yr Aelodau bod dau adroddiad carbon wedi'u comisiynu a gyllidir o Gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Roedd y cyntaf yn brosiect i edrych ar sut y gallai pob Awdurdod gyrraedd sero net erbyn 2030, tra bod yr ail yn ymwneud â chomisiynu Astudiaeth ar Linell Sylfaen Carbon ar gyfer pob un o'r wyth Tirwedd Dynodedig. Byddai'r astudiaethau hyn yn cynnwys trywydd i ddod yn dirweddau sero net rywdro yn y dyfodol. Roedd yr adroddiadau olaf hyn, er eu bod yn ddiddorol, yn debygol o fod yn ddadleuol gan y byddent yn herio'r sectorau amaethyddol, twristiaeth ac economaidd, a gofynnwyd am farn ynghylch y ffordd orau o'u defnyddio fel arf ar gyfer ymgyssylltu allanol. Cytunodd CMJ y byddai rhywfaint o'r wybodaeth yr oedd wedi'i gweld yn heriol pe na bai'n cael ei chyflwyno yn y ffordd gywir, a dywedodd y byddai APCBB yn bwrw ymlaen â'u hadroddiad ochr yn ochr â'u Cynllun Rheoli.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh may not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

Roedd EW, oedd wedi darllen yr adroddiad drafft ar gyfer APCE, o'r farn bod angen ei ystyried fel adroddiad materion i gynghori'r Awdurdod, yn hytrach na dogfen gyflawni, ac roedd hefyd yn bwriadu i'r adroddiad fwydo gwybodaeth i Gynllun Rheoli'r Awdurdod, ac i'r adroddiad gael ei ddefnyddio mewn trafodaethau gyda gwahanol sectorau ar y ffordd ymlaen. Awgrymodd hefyd y gellid defnyddio'r adroddiadau i greu cynllun cyflawni i reoli'r modd y cânt eu gweithredu. Ychwanegodd TJ nad oedd wedi gweld yr adroddiad ar gyfer APCAP eto.

NODWYD.

9. ARWEINYDDIAETH PCC 2022-24

Nodwyd y dylai Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru fod wedi symud i APC Bannau Brycheiniog ar y 1^{af} o Ebrill fel rhan o'i gylchred arferol. Diolchodd CMJ i'r rhai oedd wedi cynorthwyo tra bod Brycheiniog wedi cwblhau penodi nifer o swyddi Rheoli allweddol, a dywedodd eu bod yn awyddus i gymryd y cyfrifoldeb cyn gynted â phosibl. Byddai'n cael gair â TJ i gytuno ar drosglwyddo'r awenau.

NODWYD.

10. SEMINAR AELODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU 2022

Dywedodd CMJ er na chytunwyd ar unrhyw fanylion eto, y byddai APCBB yn trefnu Seminar wyneb yn wyneb ar gyfer yr Hydref.

NODWYD.

11. NEWYDDION O AMGYLCH Y PARCIAU

APC Eryri

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi dau Aelod ar yr Awdurdod, un i ddechrau ar y 1^{af} o Fai a'r llall ar y 1^{af} o Awst. Roedd tri Cynghorydd, gan gynnwys y Cadeirydd presennol, wedi penderfynu peidio â sefyll yn yr etholiadau oedd ar ddod.
- Oherwydd problem gyda recriwtio/cadw staff, roedd yr Awdurdod wedi cwblhau adolygiad o'i strwythur tâl ac wedi cynhyrchu colofn-dâl ddiwygiedig.
- Roedd y prosiect Caffael y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn mynd rhagddo.
- Roedd adolygiad llywodraethu wedi'i gynnal, a sbardunwyd o ganlyniad i lythyr gan y Gweinidog.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh may not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

APC Arfordir Penfro

- Derbyniwyd hysbysiad swyddogol bod yr Awdurdod wedi llwyddo i ennill y Siarter Uwch ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. Y gobaith oedd y byddai'r siarter yn cael ei chyflwyno'n swyddogol yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.
- Roedd yr Awdurdod wedi cynnal ymarferiad ail-flaenoriaethu, ac roedd yn y broses o adolygu ei strwythur. Roedd ymgynghori â'r staff ar y gweill ar y pryd.
- Roedd y Gweinidog fod agor y rhwydwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar 23 Mai.
- Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r rhai oedd yn datblygu Parc Cenedlaethol Morol yn Plymouth.
- Roedd disgwyl o leiaf 5 Aelod newydd yn dilyn yr etholiadau oedd ar fin digwydd, a byddai'r Cadeirydd yn rhoi'r gorau i'r swydd.
- Roedd nifer o danau gwyllt sylweddol wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda'r rhan fwyaf ohonynt y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Er bod yr Awdurdod wedi gweithio i sefydlu prosesau priodol, ni ddilynwyd y prosesau hyn ym mhob achos.
- Roedd adolygiad 10 mlynedd o Lwybr Arfordir Cymru wedi'i gynnal, ac roedd Huw Irranca-Davies wedi cadeirio grŵp oedd yn cynllunio ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac a fyddai'n gwneud argymhellion i'r Dirprwy Weinidog Lee Waters. Rhagwelwyd y byddai hyn yn galw am well aliniad rhwng llwybrau pellter hir ac am fwy o sylw a chyllid i wneud y mwyaf o'u buddion wrth symud ymlaen.

APC Bannau Brycheiniog

- Roedd ymateb i adroddiad diweddar Archwilio Cymru wedi bod yn llafurus iawn. Roedd yr Awdurdod wedi derbyn yr argymhelliad i geisio cymorth gweinidogion Llywodraeth Cymru, a byddai aelod o dîm Llywodraeth Cymru yn cysylltu. Oherwydd problemau gydag Aelodau, roedd materion capasiti difrifol y byddai angen rhoi sylw iddynt.
- Roedd Tîm newydd o Uwch Reolwyr bellach yn ei le gyda phenodiad Rheolwr Rhaglen a Phortffolio, Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle, a Chyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd. Diolchwyd i TJ am ei gymorth gyda'r broses recriwtio.
- Roedd yr ymgynghori wedi dod i ben ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'n canolbwyntio ar weithredu nifer o brosiectau blaenllaw wrth symud ymlaen.
- Roedd Cyngor Geoparciau Byd-eang UNESCO wedi dyfarnu cerdyn gwyrdd i Geoparc Fforest Fawr, eu hanrhydedd ail-ddilysu uchaf. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ddyfnhau ymgysylltu yn ne'r Parc Cenedlaethol.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh may not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Parciau National Cenedlaethol Parks

- Bu rhai tanau eithaf sylweddol ar draws y Parc Cenedlaethol oedd wedi achosi difrod i ardaloedd mawn. Roedd problem gynyddol hefyd gyda gyrru oddi ar y ffordd.
- O ganlyniad i bwysau gan y tri Parc Cenedlaethol, derbyniwyd cyllid ar gyfer gweithgaredd cyfarfod a chyfarfarch, fu'n amhrisiadwy dros y Pasg. Disgwylir haf prysur, yn enwedig ymwelwyr dydd.
- Roedd rhai toiledau cyhoeddus wedi'u cau fel mesur arbed costau, ac roedd trafodaethau'n parhau gyda Croeso Cymru i ailgwrthod rhai ohonynt cyn i hyn ddod yn broblem.

12. UNRHYW FATER ARALL

Adroddiadau Archwilio Cymru ar Dwristiaeth Gynaliadwy

Roedd Archwilio Cymru wedi cynnal Adroddiadau ar Dwristiaeth Gynaliadwy ar gyfer pob un o'r tri Parc Cenedlaethol, a dywedodd EW ei fod yn credu y byddai APCBB ac APCAP yn cyflwyno'r rhain i'w Haelodau fis Mai, tra na fyddai adroddiad APCE yn cael ei gyflwyno tan fis Mehefin. Er bod y rhain yn adroddiadau unigol, roeddent yn cynnwys materion trawsbynciol, ac roedd EW yn bryderus ynghylch y modd y byddai'r cyfryngau yn eu derbyn, a gofynnodd am i hyn gael ei reoli.

Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru ar Lywodraethu

Awgrymwyd y gallai'r astudiaeth hon ganolbwyntio ar y Parciau Cenedlaethol, a dywedodd CMJ y byddai angen bod yn ofalus nad oedd yr astudiaeth yn cribinio dros hen dir. Dywedodd TJ y byddai cyfarfod rhwng y tri Prif Weithredwr ac Archwilio Cymru yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf ac y byddai'r mater yn cael ei drafod.

Diolch

Dywedodd y tri Cadeirydd eu bod yn rhoi'r gorau i'w swydd Cadeirydd ac nad oedd PH a WJ yn ceisio cael eu hail-ethol yn Gynghorwyr. Diolchwyd i'r Prif Weithredwyr ac i'r Aelodau am eu cefnogaeth, eu brwdfrydedd a'u cyfeillgarwch, a dymunwyd yn dda i PCC ar gyfer y dyfodol.

NODWYD.

13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF:

Nodwyd bod cyfarfod yr Hydref fel arfer yn cael ei gynnal ar fore cyntaf Seminar yr Aelodau. Byddai manylion yn cael eu dosbarthu maes o law.



Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership



Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh.
Corresponding in Welsh may not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:

gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 13 GORFFENNAF 2022**

YN BRESENNOL :

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms S. Owen, Ms. Nia Murray, Ms. B. Hughes, Mrs.S. Roberts;

Yn bresennol

Luned Fôn Jones - Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol :-

- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ond efallai y bydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elfed P. Roberts fel Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-Gadeirydd

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod dros yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd John Pughe Roberts a'r Cynghorydd June Jones. Gwahoddwyd yr Aelodau i annerch y cyfarfod a derbyniodd y Cynghorwyr John Pughe Roberts a June Jones y gwahoddiad.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. Ymddiheuriadau

Mr. E. Williams, Ms. Naomi Luhde-Thompson

4. Datgan Budd

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23^{ain} Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

6. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth a chamau i'w gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a chadarnhaodd ei bod yn fodlon bod gan yr Awdurdod fframwaith rheoli cadarn ar waith i reoli risgiau yn y meysydd yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghynllun Archwilio 2021/22.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y materion a ganlyn:-

- Nododd aelod fod yna ddau faes sy'n gyfyngedig o ran dim dirywiad na gwella dros y blynyddoedd nesaf a gofynnodd pa drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer ailymweld â'r meysydd hynny yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod darpariaeth yn ei lle yn y cynllun eleni ar gyfer ailymweld â'r meysydd hynny i sicrhau bod y risgiau'n cael eu lliniaru i lefel dderbyniol ac y byddent yn cael eu hadrodd mewn Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn y dyfodol.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd dyddiad penodol pryd y byddai'r gwaith ar dendro yn cael ei drin ond cadarnhaodd y byddai'r Tîm Rheoli yn trafod y mater ym mis Medi, byddai'r Pennaethiaid Gwasanaeth hefyd yn cael y cyfle i roi mewnbwn a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law ac ar ôl mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig ar Contractau byddai'r holl staff perthnasol yn cael yr hyfforddiant priodol.
- Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai'r pwynt gweithredu ar Drefniadau Tandro yn parhau fel yr oedd, gan fod pethau'n datblygu drwy'r amser ond y byddai'n cael ei ddiweddarau lle bo modd. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ei hadroddiad a'i phroffesiynoldeb wrth arwain y gwaith archwilio, gan fod ei gyfnod fel Prif Swyddog Cyllid Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fod i ddod i ben ym mis Mehefin 2023, felly ni fydd yn cael cyfle arall i ddangos gwerthfawrogiad am ei gwaith mewn cyfarfod o Awdurdod y Parc.

PENDERFYNWYD

1. **derbyn yr adroddiad fel “Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol” yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 202 1/22.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifyddu 202 2/23, yn ddarostyngedig i gael ei newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

8. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf a gyllidebwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2021/2022 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y symudiadau a'r trosglwyddiadau o gyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd y bwriad i wario unrhyw warged ar Asedau'r Awdurdod wedi digwydd a chynghorodd yr Aelodau newydd ar y cylchoedd adrodd arferol ar gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Trafododd yr Aelodau'r incwm ychwanegol o Feysydd Parcio'r Awdurdod. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod 80% o'r arian wrth gefn eisoes wedi'i ddyrannu. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod arian wedi'i ddyrannu'n flaenorol i wella'r llwybrau troed ym Mhen y Pass ond dywedodd mai sefyllfa unwaith ac am byth oedd yr incwm ychwanegol o barcio yn hytrach nag un parhaol ac y byddai swm sylweddol o'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wella diogelwch ym Mhen y Pass.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw swm na chanran penodol wedi'u hargymell ar gyfer cronfeydd wrth gefn ar gyfer blwyddyn arferol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi mynegi y byddai'r Awdurdod yn derbyn y prif grant heb chwyddiant a bod swyddogion yn trafod y mater gyda nhw i sefydlu pam fod yr Awdurdod yn y sefyllfa hon. Cadarnhaodd hefyd ei bod yn debygol y byddai'r Awdurdod, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, angen y cronfeydd wrth gefn ychwanegol yn 2022/23, oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd, ac ati, a dywedodd y gallai effaith hyn fod yn sylweddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn parhau i godi'r materion ynghylch mynediad i'r maes parcio ym Mhen y Pass gyda Stad Baron Hill a'i fod yn gobeithio y byddai'n cael ei ddatrys maes o law, ond os na fyddai, yna byddai angen ystyried datrysiad amgen.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, er bod meysydd parcio wedi bod yn dawelach ar y cyfan eleni, roedd y Pennaeth Eiddo yn awyddus i gyrraedd y targedau incwm, ond ar y sail y bydd llai o ddefnyddwyr.

PENDERFYNWYD

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo'r trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol cyfadrannau a gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.7 ac Atodiad 2).**
4. **cymeradwyo dyraniad llithriad ac ymrwymadau (£274,833) yn Atodiad 4.**
5. **cymeradwyo trosglwyddo'r incwm maes parcio ychwanegol o £480,000 i'r Gronfa Rheoli Asedau.**

6. **nodi bod y gwarged ar gyfer blwyddyn ariannol 202 1/22 yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod (paragraff 6.3).**
7. **cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

9. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg yn fanwl.

Trafododd yr Aelodau y canlynol:-

- roedd Aelod yn hapus i nodi bod y risg o ymosodiad seiber bellach wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risg gan ei fod yn ymwybodol o'r difrod y gall ei achosi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r Risgiau a achosir gan Seiber Ymosodiad posibl a dywedodd ei fod wedi'i uwchraddio fel bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y risg wedi cynyddu'n bennaf oherwydd Covid gan fod y rhan fwyaf o waith yr Awdurdod bellach yn cael ei gwblhau ar-lein a dywedodd nad oedd y rhyfel rhwng Rwsia a'r Wcráin wedi helpu'r proffil risg hwn gan ei fod wedi cynyddu'r siawns o ymosodiadau seiber ar Gyrff Cyhoeddus.
- Trafododd yr aelodau'r ymosodiad seibr diweddar ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gofyn a oedd gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi trafod y mater gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a bod yr Awdurdod wedi cymryd camau ychwanegol ers hynny ond dywedodd fod cyfyngiad ar yr hyn y gellid ei wneud a dywedodd ei fod yn bwysig bod pawb wedi chwarae eu rhan gan gynnwys Swyddogion ac Aelodau i osgoi unrhyw risgiau posibl.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Proffil Risg yr Awdurdod fel y'i cyflwynwyd.

10 **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22 Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynwyd – Y pedwerydd a chwarter olaf o'r adroddiadau cynnydd ar gyfer 2021/22 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ddiweddariadau'r pedwerydd a'r chwarter olaf a dywedodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio i baratoi'r adroddiad blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Medi.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Gwella Rheolaeth a Dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol - gofynnodd Aelod am y cynnydd ynghylch 'taith gerdded y mis'. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd yn siŵr am y cynnydd hyd yma
- Mynd i'r afael â Heriau a Chyfleodd Senarios Rheoli Tir ar ôl Brexit – gofynnodd Aelod sut oedd pethau'n dod yn eu blaenau yn dilyn datganiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol. Dywedodd y Cyfarwyddwr

Cynllunio a Rheoli Tir mai ychydig o gynnydd a wnaed hyd yn hyn ond bod y Prif Weithredwr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a dywedodd fod cyfarfod i'w gynnal yn Sioe Frenhinol Cymru ac y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law.

- Mynd i'r Afael â'r Dirywiad mewn Natur - gofynnodd Aelod a ellid gwneud unrhyw waith yn y cyfamser ar CCA ar fioamrywiaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn cael eu diwygio ar hyn o bryd a'i fod yn cysylltu'n rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru a dywedodd fod y canllawiau newydd i'w cyhoeddi'n fuan iawn ac unwaith y byddent ar gael y byddai modd symud pethau ymlaen.
- Cefnogi Pobl Ifanc – mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r gwaith yn cael blaenoriaeth gan y Swyddog Ieuenctid newydd ei benodi.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

11. Adroddiad Monitro Cwynion

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 9 Chwefror a 18 Mai 2022, er gwybodaeth .

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion.
Yn codi wedi hynny,

Cofnodion 18 Mai 2022

Eitem Rhif 5 – Adroddiad Arolwg Cyflwr

- Croesawodd yr aelodau'r penderfyniad ar ddatblygu partneriaeth gyda sefydliad arall yn y tymor hir. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr wedi darparu'r ffigwr o £30,000 i £40,000 fel y swm oedd angen ei wario ar yr adeilad yn flynyddol i gynnal a chadw'r adeilad. Dywedodd fod angen blaenoriaethu peth gwaith oherwydd pryderon lechyd a Diogelwch a dywedodd y byddai unrhyw benderfyniadau ar wariant sylweddol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau.
- roedd Aelod yn bryderus ynghylch y broblem o ddŵr yn mynd i mewn i'r adeilad a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol eglurhad pellach ar y mater. Dywedodd fod adroddiad cynhwysfawr wedi'i ddisbarthu i aelodau'r bwrdd ar gyflwr yr adeilad. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i anfon copi o'r adroddiad at yr aelod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y busnes o ddydd i ddydd yn newid yn gyson ac nad oedd yr Awdurdod wedi edrych yn fanwl ar yr opsiwn o osod paneli solar gan fod rhai o'r tiroedd o fewn y Plas yn sensitif iawn.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

Diolchodd y Cadeirydd ar ran yr Aelodau i Mr. Owain Wyn a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Awdurdod. Diolchodd Mr. Owain Wyn i Staff ac Aelodau'r Awdurdod a dymunodd yn dda iddynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 yb